# Datganiad o'r Cyfrifon

# 2008/09

*Adran Cyllid*

*www.gwynedd.gov.uk*

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd Eglurhaol | 2 – 5 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 6 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 7 – 17 |
| Datganiad o'r Polisïau Cyfrifo | 18 – 23 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 24 |
| Datganiad o’r Symudiad ar Gronfa’r Cyngor | 25 |
| Datganiad o’r Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig | 26 |
| Y Fantolen | 27 |
| Datganiad Llif Arian | 28 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | 29 – 64 |
| Cyfrif Refeniw Tai a’r Nodiadau | 65 – 70 |
| Y Gronfa Degwm | 71 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 72 |
| Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd | 73 – 74 |
| Nodiadau ar Gyfrifon y Gronfa Bensiwn | 75 – 82 |
| Adroddiad yr Archwiliwyr – Cyngor Gwynedd | 83 – 84 |
| Atodiad A - Dadansoddiad Cyfrif Incwm a Gwariant | 85 – 87 |

# RHAGYMADRODD EGLURHAOL

## Rhagarweiniad

Ymddengys cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2008/09 ar dudalennau 24 i 82. Maent yn cynnwys:-

- **Cyfrif Incwm a Gwariant** - Hwn yw prif gyfrif refeniw y Cyngor, sy'n dangos yr incwm a'r gwariant ar yr holl wasanaethau ynghyd â manylion ynglŷn â sut y cyllidwyd y gwasanaethau hynny.
- **Datganiad o'r Symudiad ar y Gronfa'r Cyngor** - Mae hwn yn rhoi cysoniad rhwng y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r trafodion cyfrifo sy'n ofynnol drwy statud.
- **Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddiedig** - Mae hwn yn galluogi awdurdodau i adnabod enillion a cholledion ar y fantolen nad ydynt wedi eu debydu neu gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.
- **Y Fantolen** - sy'n gosod allan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2009.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2008/09 at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Cyfrif Refeniw Tai** - Mae'r cyfrif yma'n manylu ar yr incwm a gwariant ar wasanaeth tai'r Cyngor.
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**
- **Cyfrifon a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd**.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Datganiad o'r Polisïau Cyfrifo, sy'n dilyn y Rhagymadrodd yma, ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae Cyfrifon Grŵp wedi cael eu paratoi yn y gorffennol sydd yn cyfuno 50% o sefyllfa ariannol Cwmni Gwastraff Môn Arfon, gyda sefyllfa ariannol y Cyngor, gan ei drin fel is-gwmni. O dan y dehongliad gymhwysol i'r gofynion perthnasol, erbyn hyn ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol i gynhyrchu Cyfrifon Grŵp. Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y Cyngor, ar y cyd gyda'r cyfrandalwr gweddill y cwmni, Cyngor Sir Ynys Môn, i ddod â'r Cwmni i ben a gwneud a gwaith yn fewnol. Mae manylion am y cwmni i'w weld yn Nodyn 43 'Diddordebau mewn Cwmniau'.

## GWARIANT REFENIW YN 2008/09

Dengys y Cyfrif Incwm a Gwariant (tudalen 24) fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar ei wasanaethau ei hun yn £336m, ond ar ôl cymryd incwm a godir am wasanaethau ac amrywiol eitemau eraill i ystyriaeth, £227m oedd cost net gweithgareddau'r Cyngor am 2008/09. Gwariwyd £85m (37%) ar Addysg, £38m (17%) ar Ofal Cymdeithasol Oedolion, £16m (7%) ar Briffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth, £15m (7%) ar Wasanaethau Amgylcheddol, £13m (6%) ar Ofal Cymdeithasol Plant a £10m (4%) ar Ddiwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig.

Daeth yr incwm i Wynedd er mwyn cyllido'r gwariant yma o'r Dreth Cyngor (£45m - 21%), cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol (£31m - 15%), a Grantiau Llywodraeth Cyffredinol (£134m - 64%).

Dyma gymhariaeth rhwng yr amcangyfrif incwm a gwariant am 2008/09 a'r gwir incwm a gwariant –

| | | **Amcangyfrif £'m** | | **Gwir £'m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net ar Weithgareddau | | 213.01 | | 227.49 |
| Defnyddwyd o Falansau | (3.55) | | (1.35) | |
| Symudiadau Eraill Net | 0 | | (16.10) | |
| Gweddill / (Diffyg) am y flwyddyn | | (3.55) | | (17.45) |
| Balans i'w gwrdd o Grantiau a Threthi Lleol | | 209.46 | | 210.04 |
| Ariannwyd gan - | | | | |
| Incwm y Dreth Cyngor | | (44.31) | | (44.89) |
| Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol | | (31.46) | | (31.46) |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | | (133.69) | | (133.69) |
| | | 0.00 | | 0.00 |

Mae'r sefyllfa yma ar ôl caniatau am y symiau y bydd gwasanaethau yn ei gario ymlaen o 2008/09 i'w wario yn 2009/10.

Yn ystod 2008/09 datblygwyd problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol byd-eang a disgynodd cyfraddau llog ym Mhrydain i isafswm digynsail. Oherwydd y sefyllfa hon, newidiodd yr Awdurdod ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ac adolyodd meysydd eraill o risgiau ariannol. Gweler manylion pellach o'r gweithrediadau yma yn Nodyn 45 o'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd.

Mae gan y Cyngor adnau o £4m gyda Heritable Bank, sydd yn banc wedi ei cofrestru yn yr Deyrnas Unedig o dan gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni mewn gweinyddiaeth ar 7 Hydref 2008. Gwnaethpwyd tybiaethau ynglyn a'r adnau yma a roedd colled amhariad o £1,260,396 deillio o'r cyfrifiad gwerth teg. Wedi rhannu elfen i'r Gronfa Bensiwn a'r Cyfrif Refeniw Tai roedd cost i Gronfa'r Cyngor o £1,035,037, sydd yn cynnwys £644,621 ynglyn a'r prifswm a £390,416 sydd yn perthyn i'r cyfrifiad llog colledig arfaethedig dros y pum mlynedd nesaf. Mae manylion cynhwysfawr ar gael yn Nodyn 23 o'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd.

## GWARIANT CYFALAF YN 2008/09

Yn 2008/09 gwariodd y Cyngor £52.8m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â sut y'i cyllidwyd.

**CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU**

| 2007/08 £'000 | | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Cyfadran Adnoddau** | | |
| 248 | | Gwasanaethau Canolog | 518 |
| 25 | | Gweinyddu a Gwarchod y Cyhoedd | 22 |
| 2,878 | | Cefnogaeth Gofal Cwsmer | 2,641 |
| | **Cyfadran Amgylchedd** | | |
| 6,212 | | Cynllunio a Thrafnidiaeth | 16,102 |
| 7,165 | | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,730 |
| 3,338 | | Ymgynghoriaeth | 110 |
| | **Cyfadran Datblygu** | | |
| 3,924 | | Ysgolion | 7,871 |
| 796 | | Dysgu Gydol Oes | 949 |
| 2,172 | | Economi ac Adfywio | 3,030 |
| 0 | | Gwasanaeth Plant a Theuluoedd | 771 |
| | **Cyfadran Gofal** | | |
| 6,430 | | Cyfrif Refeniw Tai | 6,911 |
| 4,914 | | Tai | 5,129 |
| 20 | | Gwasanaethau Cymdeithasol | 182 |
| 304 | | Gwasanaethau Darparu | 680 |
| | **Prif Weithredwr** | | |
| 0 | | Prif Weithredwr | 130 |
| | **Corfforaethol** | | |
| 37 | | Corfforaethol | 22 |
| 38,463 | | | 52,798 |
| 0 | **Asedion Cyd-Fenter – Cyfleuster Compostio ar Sir Fôn** | | 986 |
| 38,463 | | | 53,784 |
| **ARIANNWYD GAN -** | | | |
| 9,196 | Benthyca | | 8,290 |
| 20,979 | Grantiau a Chyfraniadau | | 35,276 |
| 1,280 | Derbyniadau Cyfalaf | | 974 |
| 7,008 | Refeniw a Chronfeydd Eraill | | 8,258 |
| 38,463 | | | 52,798 |
| 0 | Grantiau Cyd-Fenter | | 986 |
| 38,463 | | | 53,784 |

Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi'w Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £5,814,671 yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Sefydlog oedd £47,968,660 fel a dangosir yn Nodyn 19 ar dudalen 36.

Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2009 yn £137.9m – gostyngiad o £11.3m (o £149.2m) yn ystod y flwyddyn. Roedd lleihad yn y benthyciadau allanol o ganlyniad i ad-daliad unwaith ac am byth o £10m ac ad-daliadau rhaglenedig o fenthyciadau.

## DARPARIAETHAU AC ARIAN WRTH GEFN

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol o £9.2m roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £3.7m a reserfau penodol eraill o £42.0m, sef cyfanswm o £54.9m. Ceir manylion yn y Fantolen, Nodyn 29 a Nodyn 41.

## CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Dengys cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (tudalennau 73 i 82) leihad yn ystod y flwyddyn o £134.6m yn asedau net y Gronfa, ar werth y farchnad, i £658.2m. Roedd gwerth llyfr yr Asedau net ar 31 Mawrth 2009 yn £741.0m (2008: £716.0m).

## POLISIAU CYFRIFO

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifwaith cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Datganiad o'r Polisïau Cyrifo ar dudalennau 18 i 23.

## GWYBODAETH BELLACH

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Caroline Roberts
Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol
01286 679133

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir yr hawl arolygu yma yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

# CYNGOR GWYNEDD

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB YR AWDURDOD**

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw. Cyfrifoldeb yr awdurdod hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

______________________________ **28 Medi 2009**

**Cadeirydd Pwyllgor Archwilio**

---

**CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd Ymarfer").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymrwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

---

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2009 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

______________________________ **16 Medi 2009**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

## Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

## Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2009 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

## Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

**Adnabod a chyfathrebu gweledigaeth yr awdurdod**

- Mae 'Gwynedd ar y Cyd' - partneriaeth strategol o asiantaethau allweddol ar draws y Sir - wedi datblygu Strategaeth Gymunedol Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2008 - 2012. Mae'r ddogfen yn amlinellu cyfeiriad clir a chanllawiau cadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd yng Ngwynedd ar sail blaenoriaethau cytûn fydd yn arwain at gydweithio ar draws cyrff y sir. Mae chwe egwyddor sydd yn greiddiol i'r strategaeth sef:

  1. Datblygu Cynaliadwy;

2. Cyfleoedd Cyfartal;

3. Cynhwysiad Cymdeithasol;

4. Yr Iaith Gymraeg;

5. Gwrando a Chlywed;

6. Partneriaeth a Chydweithrediad.

- Mae gan y Cyngor pedwar amcan sydd wedi eu sefydlu fel datganiad o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r chwech thema o fewn y Strategaeth Gymunedol. Mae'r amcanion hyn yn cefnogi nôd y Cyngor, sef "Gwella Gwynedd".

1. Cymuned gynaliadwy;

2. Gwella'r Cyngor er mwyn Gwella Gwynedd;

3. Tegwch a chyfleoedd i bobl a chymunedau bregus;

4. Ffocws ar drigolion.

- Fel rhan o Raglen Gwella Cymru, mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Gwella yn flynyddol. Mae'r Cynllun Gwella yn amlinellu prif amcanion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys y modd y bwriedir ymateb i'r prif flaenoriaethau. Mae'r Cynllun yn ddolen gyswllt pwysig rhwng y Strategaeth Gymunedol a chynlluniau busnes gwasanaethau'r Cyngor, a'i ddangosyddion a'i gynlluniau ar gyfer gwella ar lefel unedau busnes.

- Mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun strategol ar gyfer y cyfnod 2008/09 i 2010/11, y nod yw paratoi cynllun fyddai yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y cyfnod ar gyfer prif weithgareddau'r Cyngor, o fewn cyd-destun gwireddu blaenoriaethau hir dymor y Sir.

**Adolygu gweledigaeth yr awdurdod a'i goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu**

- Mae'r posibilrwydd o fethu dylanwadu ar y materion a'r cyrff sydd yn gyrru newidiadau o fewn y sir yn risg uchel. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi datblygu a defnyddio Fframwaith Asesu Partneriaeth sydd yn ceisio cynnig ffordd syml, gyflym a chost-effeithiol i asesu effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth. Mae'n caniatáu arfarnu'n gyflym ("health check" sydyn) er mwyn adnabod lle ceir anawsterau. Yn ogystal, mae canllawiau wedi eu llunio ar y berthynas rhwng y Cyngor a Phartneriaethau er ceisio sicrhau bod y cyfathrebu, y dylanwadu a'r cyd-gynllunio yn effeithiol.

- O dan Raglen Gwella Cymru, mae'r Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal asesiad risg blynyddol. Dylai'r canlyniad yr asesiad risg fod ar sail tystiolaeth o'r prif risgiau sydd yn wynebu'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

- Mae asesiad o a rheolaeth risgiau busnes yr awdurdod yn rhan allweddol o "Cyflawni", cylch cynllunio busnes yr awdurdod. Cynhelir yr asesiadau risg gan bob uned fusnes o fewn yr awdurdod yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg.

- Datganiad o bwrpas yr Adran Strategol a Gwella yw "datblygu, sefydlu a chefnogi diwylliant, a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau grymus er mwyn cefnogi'r egwyddor o welliant parhaus a gwneud y defnydd gorau o adnoddau".

- Yn Chwefror 2009 adroddwyd i Fwrdd y Cyngor am yr angen i ddarganfod £15m o arbedion dros y tair blynedd o 2009/10. Bellach disgwylir y bydd angen o leiaf £16m o arbedion dros y tair blynedd yn cychwyn 2010/11. Disgwylir gwireddu'r

arbedion hyn drwy broses newydd sydd yn fwy strategol, yn cynnig mwy o ddewis i aelodau ac yn fwy cynhwysol gyda staff, aelodau a thrigolion na threfniadau'r gorffennol.

**Mesur ansawdd gwasanaeth i'r defnyddwyr, sicrhau darparir hwy yn unol ag amcanion yr awdurdod a defnydd gorau o adnoddau.**

- Datblygir dangosyddion perfformiad lleol a gwelliannau fel canlyniad i'r asesiadau risg busnes y Cyngor. Caiff pob dangosydd ei nodi fel bod yn un allweddol unai ar lefel Uned, Gwasanaeth neu'r Cynllun Tair Mlynedd. Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn rhestru prif ddangosyddion allweddol corfforaethol y Cyngor.

- Pan fydd dangosyddion unedau busnes wedi eu pennu a'r targedau wedi eu gosod, mae'r dangosyddion yn destun herio gan yr Adran Strategol a Gwella a'r aelodau etholedig. Rhan o'r broses herio yma yw adnabod camau gweithredu ar gyfer meysydd o berfformiad isel, a herio targedau sydd yn ymddangos yn rhy isel o ystyried perfformiad hanesyddol. Mae Cynllun Tair Blynedd y Cyngor yn adnabod y meysydd hynny lle mae angen canolbwyntio ar welliant sylweddol.

- Mae'r Arweinydd Blaenoriaeth Strategol yn diweddaru'r Grwp Arweinyddiaeth o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol bob deufis, ac adroddir cynnydd i'r Prif Bwyllgor Craffu ac i'r Bwrdd bob 6 mis. Mae dangosyddion a gwelliannau ar lefel is yn cael eu monitro gan swyddogion yn unol â threfn monitro chwarterol gorfforaethol y Cyngor, ac adroddir ar gynnydd i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol bob 6 mis.

**Diffinio a dogfennu swyddogaethau, gyda threfniadau dirprwyo clir a phrotocol ar gyfer cyfathrebu effeithiol.**

- Mae'r Cyngor wedi enwebu'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol fel y Swyddog Monitro yn unol ag Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r Pennaeth Cyllid fel y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys protocolau ar weithredu dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strwythur rheoli sydd yn cynnwys Prif Weithredwr (sydd hefyd yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a thri Cyfarwyddwr Corfforaethol. Gyda'i gilydd, nhw yw Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol y Cyngor. Mae aelodau'r Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Cyllid yn ffurfio'r Grwp Arweinyddiaeth y Cyngor.

- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys manylion y cynlluniau dirprwyo hawliau i bwyllgorau, aelodau a swyddogion y Cyngor ynghyd â dosbarthiad o swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i Fwrdd y Cyngor.

- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys protocol ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau. Mae'r protocol yn manylu ar bwrpas a dyletswyddau'r aelodau, cadeirydd, is-gadeirydd, arweinydd portffolio, uwch arweinydd ac arweinydd y Cyngor.

- Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio Cynllun Lwfansau Aelodau ar sail Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007.

- Mae Pwyllgor Safonau wedi ei sefydlu yng Nghyngor Gwynedd er mwyn sicrhau y gwarchodir safonau ymddygiad o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor.

- Cyhoeddwyd Strategaeth Trosolwg a Chraffu er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth ymysg aelodau a swyddogion y Cyngor o'r ymarfer gorau yn y maes, a'r dulliau y

bwriedir eu defnyddio i gymryd cam sylweddol ymlaen yn nhrefniadaeth craffu Cyngor Gwynedd.

**Datblygu a chyfathrebu côd ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion**

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu "Gorchymyn Côd Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001" fel côd ymddygiad ar gyfer ei holl staff.

- Mae'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor yn cael ei arwain gan y Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod yng Nghymru; yr egwyddorion yw:
    - Anhunanoldeb;
    - Gonestrwydd;
    - Uniondeb a gwedduster;
    - Dyletswydd i gynnal y gyfraith;
    - Stiwardiaeth;
    - Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau;
    - Cydraddoldeb a pharch;
    - Bod yn agored;
    - Atebolrwydd; ac
    - Rhoi Arweiniad

- Mae'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau'n cynnwys rhannau penodol ar fuddiannau a chofrestr buddiannau aelodau. Cedwir Cofrestr Buddiannau Staff yn ganolog gan y Swyddog Monitro. Disgwylir i weithiwyr gyflwyno eu datganiadau o fuddiannau yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf i'r Prif Swyddog, i'w hanfon ymlaen i'r Swyddog Monitro.

**Adolygu a diweddaru prosesau a rheolaethau ar gyfer rheoli risg**

- Mae pob adroddiad Pwyllgor sydd â phenderfyniad gweithredol yn mynd gerbron y 3 swyddog statudol am sylwadaeth.

- Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg o fewn yr Adran Cyllid wedi datblygu Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer yr awdurdod cyfan. Mae'r polisi a'r strategaeth wedi eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol gyda'r amcan o sicrhau fod rheolaeth o risgiau wedi eu gwelyo'n ffurfiol ym mhob agwedd o waith yr Awdurdod. Mae proses barhaus o sicrhau fod pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant ar adnabod bygythiadau a chyfleon yn y modd yma, gydag adnabod risgiau a datblygu cynlluniau gweithredu yn rhan o gylch cynllunio busnes "Cyflawni" yr Awdurdod.

- Disgwylir i reolwyr fod yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd hwy. Mae hynny wedi ei ymgorffori yn y Strategaeth Rheoli Risg. Disgwylir i swydd-ddisgrifiadau gynnwys cyfeiriad penodol at rai risgiau, yn arbennig felly ym meysydd Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb.

- Mae Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-11 yn gosod allan yn glir y bwriad i gynnal gwasanaeth sy'n cynnal archwiliadau ar sail risg, a'r ddibyniaeth a roddir ar y trefniadau rheoli risg corfforaethol wrth gynllunio gwaith Archwilio Mewnol.

**Swyddogaeth y pwyllgor archwilio**

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu pwyllgor archwilio i gyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

1. Hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

2. Canolbwyntio adnoddau archwilio'r cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

3. Monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

4. Ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y Cyngor neu Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. Cymeradwyo datganiad cyfrifon y Cyngor dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig.

- Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Côd yn datgan mai swyddogaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i gyfundrefn ar yr amgylchedd reolaeth wrth werthuso ei effeithiolrwydd tra'n gwireddu amcanion y gyfundrefn. Mae'n archwilio, gwerthuso ac adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd reolaethol fel cyfraniad i'r defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Mabwysiadwyd Strategaeth Archwilio 3-blynedd ym Mawrth 2008, a darperir cynllun archwilio blynyddol yn seiliedig ar y strategaeth yma.

- Yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi adroddiad blynyddol sydd yn crynhoi canlyniad gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod.

**Sicrhau cydymffurfiaeth gyda chyfraith, deddfau, trefniadau mewnol a bod gwariant yn gyfreithlon**

- Disgwylir i archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor adrodd i'r swyddogion perthnasol ar unrhyw fethiant i gydymffurfio naill ai â pholisi neu ddeddfwriaeth, ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Mae'r penaethiaid adran yn derbyn copi o bob adroddiad archwiliad mewnol perthnasol, ac adroddir i'r Pwyllgor Archwilio ar ganlyniadau gwaith dilyniant ar argymhellion gyda golwg ar uchafu ardrawiad y gwaith archwilio.

- Mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol, yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'r polisi yn datgan bod y Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn, gyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswydd fel cyflogwr tuag at ei weithwyr ac eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithgareddau. Nôd Cyngor Gwynedd yw cyflawni'r safon uchaf wrth reoli iechyd, diogelwch a lles.

**Canu'r gloch a derbyn cwynion gan y cyhoedd**

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi a Threfniadau Canu'r Gloch, cynllun sy'n rhoi ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn yn ddidwyll am unrhyw bryderon am ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camweinyddu ariannol, perygl i'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin clientiaid, ayb. Yn ystod mis Mai 2009 dosbarthwyd cerdyn sydd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y drefn canu'r gloch i holl swyddogion y Cyngor.

- Mae’r Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno trefn safonol ar hyd y cyngor i ddeilio gyda chwynion. Mae'r Cyngor o'r farn bod y drefn yn hawdd ei ddefnyddio, mae'n ymchwilio'n drwyadl i bob cwyn, mae'n gwarantu ateb cyflym a chyflawn ac mae'n cynnig cyfle i fynd a'r mater ymhellach os nad yw unigolion yn hapus efo'r ymateb. Yn ogystal, mae'r drefn cwyno yn cydymffurfio â threfniadau statudol a geir mewn adrannau e.e. trefniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Plant 1989 a Deddf Gofal yn y Gymuned 1990. Mae "Ffurflen Cwyno" priodol ar gael i gofnodi cwyn.

**Adnabod a datblygu anghenion aelodau ac uwch swyddogion**

- Mae'r Cyngor wedi dylunio matrics hyfforddi ar gyfer swyddogion ac wedi dynodi 6 categori hyfforddi; Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, Penaethiaid, Rheolwyr, Arweinwyr Maes, Goruchwylwyr, Staff a Gweithwyr Uniongyrchol. Defnyddiwyd nodweddion penodol ar gyfer adnabod categori hyfforddi priodol aelod o staff. Mae rhaglen hyfforddi wedi ei lunio ar gyfer pob categori.

- Adroddwyd i'r i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Ebrill 2008 ar drefniadau anwytho aelodau yn dilyn yr etholiad lleol. Enghreifftiau o'r hyfforddiant a gynigir yw anwytho, côd ymddygiad, cyflwyniad i gynllunio, craffu, rôl llywodraeth leol, llywodraethu corfforaethol ynghyd a hyfforddiant wedi ei drefnu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- Mae’r Rheolwr Hyfforddi wedi datblygu strategaeth sydd yn gosod gweledigaeth y Cyngor ar ddatblygu a hyfforddi aelodau dros y blynyddoedd nesaf. Mae’r strategaeth wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2009.

**Sefydlu modd clir ar gyfer cyfathrebu gyda’r gymuned a deiliad diddordeb eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac ymgynghoriad agored**

- Ceir protocol ar gyfer cyswllt aelod a swyddog yn y cyfansoddiad gyda'r bwriad i roi arweiniad i aelodau a swyddogion y Cyngor yng nghyd-destun eu cysylltiad â'i gilydd. Ceisia'r protocol gynnig arweiniad ar rai o'r materion sy'n codi amlaf, yn ogystal â hybu mwy o eglurder a sicrwydd.

- Cynhelir cyfarfod blynyddol Gwynedd ar y Cyd, ble mae cyfle i drigolion Gwynedd gael adborth am y gwaith sydd wedi ei gyflawni ac i gyfrannu tuag at y camau nesaf o'r bartneriaeth.

**Ymgorffori trefniadau llywodraethu da ar gyfer partneriaethau gan adlewyrchu'r rhain yn nhrefniadau llywodraethu**

- Mae'r Cyngor wedi datblygu Fframwaith Asesu Partneriaeth, sydd wedi ei selio ar 6 egwyddor partneriaeth sydd yn ôl yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Llywodraeth DU) yn flociau ar gyfer adeiladau partneriaeth lwyddiannus:
    - Cydnabod a derbyn yr angen am bartneriaeth,
    - Datblygu pwrpas clir i'r bartneriaeth,
    - Sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth,
    - Datblygu a chynnal ymddiriedaeth,
    - Llunio trefniadau partneriaeth glir a chryf,
    - Monitro, mesur a dysgu.

# Trefniadau i sicrhau rheoli ariannol digonol ac effeithiol

- Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn rhan o gyfansoddiad Cyngor Gwynedd ac yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor. Adolygwyd y rheolau ym mis Mai 2009.

- Dyletswydd Bwrdd y Cyngor, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd a gaiff o bryd i'w gilydd gan y Cyngor, yw trefnu, goruchwylio a rheoli holl arian a chyfrifon y Cyngor a'i holl adrannau, a chyd-gysylltu'r trefniadau ariannol a chyfrifo.

- Dyletswydd y Pwyllgor Archwilio yw monitro ac adolygu cyfrifon a rheolaeth ariannol y Cyngor a'i holl wasanaethau ynglyn â phriodoldeb ariannol drwy adolygu gweithdrefnau cyllidol, hybu rheolaeth fewnol a datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll.

- Dyletswydd y Prif Bwyllgor Craffu yw monitro ac adolygu cyfrifon a rheolaeth ariannol y Cyngor a'i holl adrannau o ran adolygu penderfyniadau Bwrdd y Cyngor, datblygu polisïau perthnasol, monitro sefyllfa ariannol y Cyngor a hybu gwerth am arian.

- Y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb tros weinyddu materion ariannol yn ôl gofynion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- Yn ogystal â'r cyfrifoldeb tan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Pennaeth Cyllid ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gweinyddiaeth ariannol a stiwardiaeth y Cyngor. Ni ellir diystyru'r cyfrifoldeb statudol hwn. Mae'r dyletswyddau statudol ychwanegol hyn yn deillio o'r canlynol:

    - Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
    - Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989
    - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005
    - Deddf Llywodraeth Leol 2003

- Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am:

    - Weinyddiad priodol materion ariannol y Cyngor;
    - Gosod safonau rheoli ariannol a monitro cydsyniad â hwynt;
    - Adrodd ar gryfder amcangyfrifon ac ar ddigonolrwydd y cronfeydd ariannol bwriadedig a gosodedig er mwyn llunio cyfrifiadau cyllidebol.

- Yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor Llawn, i Fwrdd y Cyngor ac i'r archwiliwr allanol os yw o'r farn bod y Cyngor, pwyllgor o'r Cyngor, cydbwyllgor â chynrychiolaeth y Cyngor arno, neu un o'i swyddogion:

    - Wedi gwneud, neu ar fin gwneud, penderfyniad sy'n arwain at wariant anghyfreithlon;

- Wedi gwneud, neu ar fin gwneud, rhywbeth anghyfreithlon sydd wedi neu a fyddai'n creu colled neu ddiffygiad i'r Cyngor;
  - Ar fin gwneud cofnod anghyfreithlon yng nghyfrifon y Cyngor.

- Ni chyflwynir unrhyw adroddiad i Fwrdd y Cyngor (nac i'r Cyngor Llawn, Pwyllgor Adnoddau Dynol, neu bwyllgor arall gyda phwerau gweithredol) heb yn gyntaf ei gyflwyno i'r Pennaeth Cyllid am ei sylwadau ar briodoldeb ariannol neu oblygiadau ariannol yr argymhellion. Ni chaiff swyddogion nac aelodau roddi gwybodaeth ariannol i gyrff ac unigolion allanol heb yn gyntaf ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid neu reolwr cyllid perthnasol er mwyn sicrhau cywirdeb. Rhaid ymgynghori'n bersonol gyda'r Pennaeth Cyllid pan fo rheolwr cyllid perthnasol yn tybio fod yr wybodaeth yn sensitif o safbwynt masnachol.

- Bydd pob pennaeth adran yn sicrhau y bydd ei adran yn defnyddio egwyddorion pendant ynglyn â gwirio mewnol i fodloni'r Pennaeth Cyllid. Yn benodol:
  - Caiff y dyletswyddau o ddarparu gwybodaeth am symiau sy'n ddyledus i neu gan y Cyngor ac o gyfrifo, gwirio a chofnodi'r symiau hyn eu gwahanu cymaint ag y bo modd oddi wrth y ddyletswydd o'u casglu neu eu gwario:
  - Ni fydd y swyddogion sydd â'r ddyletswydd o archwilio a gwirio cyfrifon trafodion ariannol yn cymryd rhan eu hunain mewn unrhyw un o'r trafodion hynny.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd o system rheolaeth fewnol yn cael ei hysbysu drwy waith archwilio mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygiad a'r gynhaliaeth o'r amgylchedd llywodraethu, ac yn ogystal drwy sylwadau gan archwilwyr allanol, asiantaethau ac arolygwyr eraill.

Cynhaliwyd yr adolygiad a ddisgrifir yma trwy adolygu darganfyddiadau archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor, a thrwy drafodaeth gyda swyddogion allweddol o fewn yr awdurdod. Mae'r broses sydd wedi ei ddefnyddio i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Mae'r gyfundrefn gyllidebu yn sicrhau bod dyraniad cyllidebol yn adlewyrchu anghenion "busnes" y Cyngor, sicrhau ei fod yn glir mai Rheolwyr yw perchnogion eu cyllidebau. Mae'r gyfundrefn yn rhan annatod o'r broses cynllunio busnes.

- Mae archwiliad yr Archwilydd Penodedig o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn amlygu bod gan y Cyngor drefniadau ar waith ar gyfer casglu a dilysu gwybodaeth am berfformiad ond mae angen eu cryfhau ymhellach. Yn ogystal, nodwyd fod fframwaith perfformiad ar waith ond mae angen ei osod yn llawn drwy'r holl Gyngor.

- Yn eu harchwiliad o'r Cynllun Gwella, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad y cyflawnwyd y Cynllun Gwella'r Cyngor yn briodol ac mae'n dangos darlun cytbwys o berfformiad yn ystod y flwyddyn 2007-08.

- Mae dadansoddiad yr Archwilydd Penodedig, yn seiliedig ar 22 Dangosydd Strategol Cenedlaethol sy'n destun archwiliad statudol, yn tynnu sylw at yr angen am waith ychwanegol yn y meysydd canlynol:
  - Mae gwendidau o hyd yn ansawdd y data ac mae hyn wedi arwain at amodi un dangosydd.

- Mae angen datblygu'r prosesau canolog i ddilysu a gwirio gwybodaeth am berfformiad a ddarperir gan adrannau.

- Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer pennu targedau yn gyson ar draws y corff a bod y trefniadau hynny'n cyflawni targedau sy'n realistig ond yn heriol. Yn achos tri Dangosydd Strategol Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, gostyngwyd y targedau ar gyfer 2008/09 i lefel llai heriol nag yn 2007/08 yn seiliedig ar gyflawniad mewn perfformiad gwirioneddol yn 2007/08 a ffactorau eraill, er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng realaeth ac uchelgais.

- Ni fydd unrhyw adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor, Bwrdd y Cyngor, y Pwyllgor Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Pensiynau nac, yng nghyswllt materion eiddo unigol, i Bwyllgor Ardal nac i aelod unigol lle bo'r hawl penderfynu gan yr aelod, onid yw, yn gyntaf, wedi'i gyflwyno i'r tri swyddog statudol am sylwadau ar unrhyw fater ynghylch polisi, cyfreithioldeb, priodoldeb ac oblygiadau ariannol unrhyw argymhellion.

- Sefydlwyd gweithgor gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ym mis Tachwedd 2008, gyda'r briff o adolygu'r Strategaeth Trosolwg a Chraffu. Allbwn y gweithgor oedd cynllunio Strategaeth Trosolwg a Chraffu am y cyfnod 2009/12.

- Ffrwyth llafur cyfres o gyfarfodydd rhwng rheolwyr y Cyngor, y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol ac aelodau etholedig yw adnabod yn flynyddol y Prif Faterion sy'n wynebu'r adrannau a chaiff eu hymgorffori i'r Cynllun Tair Blynedd.

- Ym mis Mai 2008 sefydlodd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol weithgor i graffu'r Strategaeth Gaffael. Briff y gweithgor oedd herio a chytuno cyfeiriad y strategaeth, y fframwaith adolygiadau gwasanaeth strategol, y polisi cystadleuaeth a'r polisi cydweithio. Allbwn y gweithgor yw datblygu Strategaeth Caffael am y cyfnod 2008/11.

- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Yn ei adolygiad diweddaraf daeth yr archwilwyr allanol i'r casgliad fod gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol ac felly ei fod yn bosibl i iddynt ddibynnu ar waith y gwasanaeth.

- Adroddodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod gan Cyngor Gwynedd, yn ei farn ef, fframwaith cadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.

- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cadw goruchwyliaeth fanwl ar lwyddiant archwilio mewnol i gwblhau ei gynllun archwilio ac i gynnal archwiliadau dilyniant mewn meysydd ble adnabuwyd methiant mewn rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor yn galw rheolwyr a phenaethiaid adran yn atebol pan fu methiant i weithredu gwelliannau disgwyliedig i reolaethau mewnol.

- Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r Strategaeth Gyfathrebu. Yn ogystal, cynhelir amryw o gyfarfodydd gan Dimau Rheoli ar sawl lefel ym mhob adran i sicrhau bod amcanion yr awdurdod yn cael eu cyfathrebu i staff drwy'r sianeli addas.

- Yn dilyn adolygiad o'r Fframwaith Asesu Partneriaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Gwynedd, bwriedir addasu'r fframwaith yn ystod 2009/10.

- Roedd y Cyngor yn awyddus i dderbyn barn tenantiaid tai Cyngor ynghylch trosglwyddo stoc tai'r Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd. I'r perwyl hynny cynhaliwyd pleidlais gudd ym mis Mawrth 2009.

- Bu'r Cyngor yn destun 7 adolygiad gan yr Ombwdsman yn dilyn honiadau o gamweinyddu.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus yn ei le.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod y materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

- Nid oes gan y Cyngor un ddogfen sydd yn cwmpasu'r côd rheolaeth gorfforaethol, fodd bynnag mae'r materion a ddisgwylir i'w weld mewn côd o'r fath wedi eu hymgorffori mewn dogfennau eraill, megis y Cyfansoddiad, Strategaeth Gaffael, Strategaeth Datblygu a Hyfforddi Aelodau a.y.y.b.

- Mae'r Cynllun Tair Mlynedd yn adnabod y pwysigrwydd o gyswllt effeithiol gyda'r cyhoedd, i'r perwyl hynny mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal paneli dinasyddion yn ogystal ag arolwg barn ymysg y cyhoedd er mwyn gwella penderfyniadau'r Cyngor.

- Daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn fod angen cynnal adolygiadau rheolaidd o'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Tair Mlynedd yn hytrach na chynnal adolygiad blynyddol.

- Yn ôl y Cydadolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran gwella ei Wasanaethau Cymdeithasol, ac ni chyflawnwyd llawer o'r gwelliannau arfaethedig ar ôl y Cydadolygiad diwethaf o'r Gwasanaeth yn 2001. Mae'r adroddiad yn adnabod 6 blaenoriaeth sydd angen sylw i'w gweithredu.

- Mae nifer o gyrff allanol yn cynnal adolygiadau ar drefniadau'r Cyngor. Bydd yr adrannau perthnasol yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi eu hadnabod.

- Bu i'r Cyngor newid strwythur rheolwyr a chefnogaeth gorfforaethol ym mis Ebrill 2009. Pwrpas yr ail- strwythuro yma oedd symleiddio ac amlygu swyddogaeth gorfforaethol y Gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn gwelyo'r trefniadau ar draws yr adrannau yn ystod 2009/10.

- Bu i'r Cyngor gymeradwyo addasu'r gyfundrefn graffu yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai 2009. Pwrpas yr addasiadau yw newid swyddogaeth y Prif Bwyllgor Craffu, sicrhau bod perchnogaeth am benderfyniadau gyda'r aelodau a phwysleisio fod hawl i alw achosion gerbron y pwyllgor. Bydd y trefniadau newydd yn cael eu gwelyo a'u hymgorffori yn y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2009/10.

- Mae'r Cyngor wedi adnabod yn ei Gynllun Tair Blynedd y pwysigrwydd o ddatblygu'r Cyngor fel ei fod yn cael ei arwain yn well. Bwriedir llunio rhaglen

ddatblygu arweinwyr er mwyn adnabod a meithrin arweinwyr y dyfodol ymysg rheolwyr y Cyngor, yn ogystal â datblygu ffocws strategol drwy ddatblygu rolau'r rheolwyr canol.

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio i safonau'r Siarter ar Gefnogi a Datblygu Aelodau, ac yn unol â'r gofynion mae Bwrdd y Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Datblygu a Hyfforddi Aelodau yn ei gyfarfod ym mis Mai 2009. Bwriedir gweithredu'r strategaeth ar gyfer yr arweinyddion (sef aelodau o'r Bwrdd ac arweinyddion grwpiau gwleidyddol) yn ystod 2009/10 ac yna ar gyfer gweddill yr aelodau yn ystod 2010/11.

- Bwriedir ail strwythuro'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan leihau'r nifer o bwyllgorau cynllunio. Pwrpas y newid yw sicrhau cysondeb a gwella'r broses penderfynu ar geisiadau cynllunio, yn ogystal â lleihau'r cyswllt lleol rhwng yr aelodau â'r sawl sydd yn cyflwyno'r cais cynllunio. Bwriedir cyflwyno adroddiad ar drefniadau arfaethedig i'r Prif Bwyllgor Craffu yn ystod 2009/10.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **Harry Thomas**<br>**Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd** | **Cyng. Dyfed Wyn Edwards**<br>**Arweinydd Cyngor Gwynedd** |
| **Dyddiad** | **Dyddiad** |

# DATGANIAD O'R POLISÏAU CYFRIFO

## 1. CYFFREDINOL

Darparwyd y cyfrifon yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y DU diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA) yn 2008 ("Y Cod") sydd yn cynnwys y Cod Ymarfer Cyfrifo ar gyfer Gwerth Gorau (BVACOP) a'r Datganiad Ymarfer Argymelledig (SORP), a nodiadau arweiniol CIPFA ar ddefnydd Safonau Adrodd Ariannol (FRS's).

Mewn perthynas a pholisi yn ymwneud a cyfalafu gwariant, ein ymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

## 2. ASEDAU SEFYDLOG

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fasdata'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob 5 mlynedd (gyda gwerth Tai Cyngor yn cael eu hadolygu yn flynyddol). Mae hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifwaith a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r gwerthusiad cyflawn diwethaf yn effeithiol o'r 1af Ebrill 2005.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio, os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler 4 isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer Asedau o'r math Tir ac Adeiladau ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Dangosir asedau gweithredol ar sail gwerth defnydd presennol (EUV) neu gostau ail-adeiladu dibrisiedig (DRC) ar gyfer eiddo arbenigol.

Mae Tai Cyngor wedi eu prisio ar sail Gwerth Defnydd Presennol i Dai Cymdeithasol (EUV-SH), yn unol â gofynion Datganiad o Ymarfer Argymelledig ar gyfer Llywodraeth Leol. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i bennu'r gwerth defnydd presennol i dai cymdeithasol angen cyfrifo 'ffactor addasu' sydd wedyn yn cael ei roi yn erbyn y gwerth eiddo gwag i adlewyrchu'r ffaith fod gan Dai Cyngor denant 'tai cymdeithasol' mewn lle. Mae ffactorau addasu ar gyfer pob ardal yn Lloegr yn gynwysedig mewn arweiniad a ddarparwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yng Ngorffennaf 2005. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arweiniad tebyg. Mae Prisiwr y Cyngor felly wedi cyfrifo ffactor addasu a fwriadwyd i adlewyrchu ffactorau'r farchnad leol.

Dangosir asedau anweithredol ar yr isaf o gostau ail-adeiladu cyfredol net a gwerth gwireddadwy net (fel arfer Gwerth y Farchnad).

Defnyddir cost hanesyddol (a ddibrisiwyd) ar gyfer cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar bris hanesyddol yn bennaf neu gwerth defnydd presennol ble yn briodol.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith pan eu prisir yn unol â'r polisïau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori Asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer tir ac adeiladau gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

**3. GWARIANT REFENIW I'W ARIANNU O GYFALAF DRWY STATUD**

Mae Deddfwriaeth yn caniatáu peth gwariant i gael ei gategoreiddio fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw yn creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y fantolen ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

**4. SAIL YR AD-DALIADAU CYFALAF**

Mae Safon Adrodd Ariannol 11 yn mynnu bod asedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Mae unrhyw wariant ar asedau sefydlog sydd ddim yn cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased, yn cael ei ad-dalu yn erbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn. Mae'r SORP yn caniatau addasu effaith amhariad trwy'r Datganiad o Symudiadau a dangosir yr addasiad canlyniadol yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ar y Fantolen. Prif elfennau FRS 15 yw bod yn rhaid dibrisio adeiladau os nad ydynt yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, mae'n ofynnol dibrisio prif elfennau ased sengl sydd â bywydau economaidd gwahanol ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

(i) Dibrisir cerbydau, offer dodrefn a chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifiedig (3 – 10 mlynedd)
(ii) Dibrisir is-adeiladwaith dros 40 mlynedd
(iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
(iv) Ni ddibrisir tir
(v) Dibrisir adeiladau dros eu bywyd amcangyfrifiedig (amrywiol)

O'r 31ain o Fawrth 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithrediad y gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi eu cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) blynyddol.

Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLIR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Dangosir y Datganiad DLIR Blynyddol ar gyfer 2008/09 isod -

> Ar gyfer gwariant cyfalaf cyn y 1af o Ebrill 2008, neu wariant cyfalaf fydd gyda chefnogaeth yn y dyfodol, bydd y DLIR yn seiliedig ar 4% o'r balans agoriadol o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf llai addasiad ('A') (Opsiwn 1). Bwriad yr addasiad ('A') yw sicrhau niwtraliaeth rhwng y Gofyn Cyllido Cyfalaf a'r hen Nenfwd Credyd oedd yn arfer cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r DLIR cyn cyflwyniad y Gyfundrefn Ddarbodus ar 1af Ebrill 2004.
>
> O'r 1af o Ebrill 2008, ar gyfer yr oll fenthyca heb gefnogaeth a weithredwyd drwy'r Cod Darbodus, bydd y polisi DLIR yn seiliedig ar y Dull Oes yr Ased (Opsiwn 3). Bydd y ddarpariaeth lleiafswm refeniw mewn rhandaliadau cyfartal dros oes yr ased. Bydd y tal cyntaf yn cael ei oedi hyd nes bydd yr ased yn weithredol.
>
> Bydd cyfnodau oes asedau amcangyfrifedig yn cael eu pennu o dan bwerau dirprwyedig. Os nad yw gwariant yn creu ased, ond yn fath sydd yn amodol ar gyfnodau oes amcangyfrifedig sydd yn cael eu cyfeirio at yn yr arweiniad, bydd

y cyfnodau yma yn gyffredinol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor. Ond, mae'r Cyngor yn neilltuo'r hawl i bennu cyfnodau oes ddefnyddiol a DLIR darbodus mewn amgylchiadau eithriadol ble na fyddai argymhellion yr arweiniad yn briodol.

Gan na ellir cysylltu bob elfen o wariant cyfalaf y Cyngor i asedau unigol, bydd oes yr asedau yn cael eu hasesu ar y sail mwyaf addas fydd yn adlewyrchu'r cyfnod o fudd a ragwelir a ddeillir o'r gwariant. Yn ogystal, pa bynnag fath o wariant a wneir, bydd yn cael ei grwpio efo'i gilydd mewn dull fydd yn adlewyrchu natur yr elfen bennaf o wariant ac yr unig amser y rhennir y gwariant fydd mewn amgylchiadau ble mae dau neu fwy prif elfen gydag oes ddefnyddiol economaidd sylweddol gwahanol.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

**5. DERBYNIADAU CYFALAF**

Pan werthir Asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Mewn achos adeiladau'r Cyfrif Refeniw Tai nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu, ond mae'r Cyngor wedi penderfynu i barhau efo'r hen drefn o neilltuo 75% o'r derbyniad ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol. Cedwir y 25% arall yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf. Gellir defnyddio 100% o dderbyniadau a ddaw o werthu tir y Cyfrif Refeniw Tai.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid oes angen i'w neilltuo erbyn hyn.

**6. GRANTIAU'R LLYWODRAETH**

Rydym yn priodi grantiau refeniw gyda'r gwariant perthnasol a chredydir hwynt i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y cyfnod priodol.

Credydir grantiau a chyfraniadau cyfalaf i'r Cyfrif Grantiau Gohiriedig pryd y defnyddir i gyllido gwariant a'i ryddhau i'r Penawdau Gwasanaeth priodol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant dros fywyd yr ased i gyd-fynd gyda dibrisiant yr Asedau perthnasol.

Cyfrifir Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill ar sail croniadau.

**7. OFFERYNAU ARIANNOL**

Offeryn Ariannol yw unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Felly, mae'r term offeryn ariannol yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol.

Mewn cydymffurfiad gyda'r gofynion newydd adolygwyd asedau ac ymrywmiadau ariannol y Cyngor er mwyn eu categoreiddio a phenderfynu ar y triniaeth cywir. Adnabwyd yr offerynau ganlynol wrth wneud yr adolygiad hwn:

Ymrwymiadau ariannol

- Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.
- Benthyciadau tymor hir gan gynnwys premiwms a disgownts ar setliad cynnar benthyciadau sydd wedi eu gohirio.
- Gwarantau ariannol.

Asedau ariannol

- Adnau banc
- Dyledwyr masnachol
- Benthyciadau derbyniadwy
- Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn prisio ei ymrwymiadau ariannol ar gost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cyfrifir llog i'r Cyfrif Incwm a Gwariant gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Oherwydd fod benthyciadau tymor hir y Cyngor i gyd ar gyfraddau sefydlog, telir y llog wedi ei cronnu am y flwyddyn.

Mae enillion neu golledion sydd yn codi ar ad-daliad cynnar yn cael eu trin fel eu bod yn diddymu'r ymrwymiad ariannol onibai eu bod yn cwrdd ag amodau caeth lle bo modd trin y trafodyn fel addasiad o amodau'r benthyciad presennol ac addasu gwerth y benthyciad newydd gyda unrhyw enillion neu colledion.

Dosbarthir mwyafrif Asedau ariannol y Cyngor fel benthyciadau neu dyledwyr ac felly eu prisio ar sail cost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Roedd gan y Cyngor ddau buddsoddiad sydd wedi cael eu trin fel asedau ariannol ar gael i'w gwerthu ac wedi cael eu ail-ddatgan i werth deg. Ad-dalwyd un o'r rheiny yn ystod 2008/09 ac disgwylir ad-daliad am yr ail un yn ystod 2009/10.

Mesurir Credydwyr a Dyledwyr tymor byr sydd heb cyfradd llog datganedig ar sail swm yr anfoneb gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl dyledwyr a credydwyr masnachol.

Mae deddfwriaeth 'Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007 yn caniatau addasu effaith ail-ddatgan offerynau ariannol trwy'r Datganiad o Symudiadau a dangosir yr addasiadau canlyniadol yn y Cyfrif Addasiadau Offerynau Ariannol a'r Reserf Offerynnau ar Gael i'w Gwerthu ar y Fantolen.

Cyn y gofynion newydd yma, lle roedd ail-brynu benthyciadau yn cysylltiedig gyda ail-ariannu neu ail-strwythuro benthyciadau gyda'r un effaith economaidd yn gyffredinol pan welir yn ei cyfanrwydd, polisi y Cyngor oedd adnabod enillion neu colledion dros oes y benthyciad olynnol neu gyfnod o 10 mlynedd, pa bynnag yw'n fyrach. Mae'r addasiad a chaniateir o dan statud yn golygu bod yr effaith net ar balansau'r Cyngor yn gyfatebol i'r trosglwyddiad o dan y polisi yma.

**8. DYLEDWYR A CHREDYDWYR**

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifwaith. Hynny yw, cynhwysir symiau sy'n ddyledus i, neu oddi wrth y Cyngor yn ystod y flwyddyn p'run a'u derbyniwyd neu'u talwyd ai peidio yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

**9. STOCIAU A GWAITH MEWN LLAW**

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y fantolen ar sail yr isaf o gost hanesyddol neu wir werth, yn unol â darpariaethau'r Côd Ymarfer. Ond oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost cyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth mewn sail gwerthuso yn faterol.

**10. COSTAU GWASANAETHAU CEFNOGOL**

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig. Rhennir costau swyddfeydd yn ôl arwynebedd y

lloriau.

Yr unig gostau a adewir heb eu dosrannu, cyfanswm o £1.274m am 2008/09 (£1.304m yn 2007/08), yw costau rheolaeth corfforaethol a chostau cefnogol nad oes rhaid eu dosrannu yn ôl darpariaethau'r Cod Ymarfer. Mae'r dosraniad yn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer Cyfrifo ar gyfer Gwerth Gorau.

**11. DARPARIAETHAU**

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Gweler manylion pellach yn Nodyn 29.

**12. RESERFAU**

Yn unol â darpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 1988, mae'r Cyngor yn cynnal un Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn yr Awdurdod. Dangosir cronfa refeniw y Cyfrif Refeniw Tai ar wahân oherwydd bod trefniadau "ynysu" y Llywodraeth ("ring fencing") yn golygu na chant eu defnyddio at unrhyw bwrpas arall. Fodd bynnag, ceir hefyd nifer o Reserfau Penodol, fe roddir manylion o'r rhain yn Nodyn 41.

**13. PENSIYNAU**

Mae'r Safon Adrodd Ariannol (FRS) 17 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr baratoi eu ddatganiadau ariannol yn unol a gofynion FRS17. Gweler manylion pellach yn Nodyn 31.

**14. DYRANNU LLOG DERBYNIADWY**

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at ddwy flynedd a thelir y llog i Gronfa Gyffredinol y Sir, Y Cyfrif Refeniw Tai, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

**15. LLOG SYDD YN DALADWY**

Cyfrifir am log sy'n daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfrifon yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

**16. PRYDLESAU**

Cyfrifir am daliadau o dan prydlesau gweithredol yng nghyfrifon refeniw gwasanaethau ar sail croniadau.

**17. TRETH AR WERTH (TAW)**

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

**18. BUDDIANNAU MEWN CWMNIAU AC ENDIDAU ERAILL**

Dangosir buddsoddiadau'r Cyngor yng nghwmniau ac endidau eraill yn y Fantolen fel cost gwreiddiol heblaw eu bod nhw'n cael eu trin fel Offerynau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu pan meant yn cael eu hail-brisio yn unol a polisi cyfrifo yn nodyn 7 uchod. Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 23 'Buddsoddiadau'.

Pan fo'r Cyngor â budd mewn corff cysylltiedig ac yn cael buddiannau o'r corff ond hefyd yn wynebu'r risgiau cysylltiedig yna bydd y Cyngor yn penderfynu gyda golwg ar eu sylwedd a fydd angen Cyfrifon Grwp yn unol â gofynion y Côd. Wrth benderfynu ar y dull cyfrifo yng nghyswllt y budd mewn corff, bydd y Cyngor yn rhoi sylw i faint o ddylanwad ac o reolaeth sydd ganddo dros y corff hwnnw.

# CYFRIF INCWM A GWARIANT – 2008/09

| 31 Mawrth 2008 Gwariant Net £'000 | | 31 Mawrth 2009 Gwariant Gros £'000 | Incwm £'000 | Gwariant Net £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 9,913 | Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig | 16,281 | (6,157) | 10,124 |
| 15,561 | Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddio | 23,209 | (8,021) | 15,188 |
| 4,890 | Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu | 8,219 | (3,382) | 4,837 |
| 81,301 | Gwasanaethau Plant ac Addysg – Addysg | 101,945 | (16,994) | 84,951 |
| 13,427 | Gwasanaethau Plant ac Addysg – Gofal Cymdeithasol Plant | 16,122 | (2,625) | 13,497 |
| 15,925 | Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 21,700 | (6,100) | 15,600 |
| 2,669 | Tai Cronfa'r Cyngor | 35,620 | (31,961) | 3,659 |
| 37,378 | Gofal Cymdeithasol Oedolion | 53,149 | (15,329) | 37,820 |
| 1,463 | Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd | 10,383 | (8,923) | 1,460 |
| 243 | Gwasanaethau Llysoedd | 437 | (162) | 275 |
| 4,352 | Corfforaethol a Democratiaeth Craidd | 10,987 | (6,986) | 4,001 |
| 196 | Costau heb eu Dosrannu | 3,967 | 0 | 3,967 |
| 1,239 | Eitemau Eithriadol *(Nodyn 17)* | 0 | 0 | 0 |
| 188,557 | **Cost net Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor** | 302,019 | (106,640) | 195,379 |
| 3,730 | Cyfrif Refeniw Tai | 33,674 | (19,409) | 14,265 |
| 192,287 | **Cost net gwasanaethau** | 335,693 | (126,049) | 209,644 |
| 849 | Colled / (Elw) ar waredu Asedau Sefydlog | | | (201) |
| 395 | Colled Net Unedau Masnachol *(Nodyn 11)* | | | 107 |
| 7,634 | Praeseptau a Lefiau *(Nodyn 12)* | | | 7,919 |
| 10,714 | Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | | | 9,791 |
| (4,929) | Llog ac Incwm ar Fuddsoddiadau | | | (3,872) |
| 72 | Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwylir ar Asedau *(Nodyn 31)* | | | 4,102 |
| 207,022 | **Gwariant Net ar weithgareddau** | | | 227,490 |
| (43,036) | Treth Cyngor *(Nodyn 13)* | | (44,885) | (44,885) |
| (28,679) | Incwm net y Dreth DAnnomestig *(Nodyn 14)* | | | (31,463) |
| (132,774) | Grantiau Llywodraeth Cyffredinol *(Nodyn 15)* | | (133,689) | (133,689) |
| **2,533** | **Diffyg am y flwyddyn** | | | **17,453** |

Oherwydd y newidiadau yng ngofynion y Datganiad Ymarfer Argymelledig o fewn y Côd Ymarfer, a'r angen i ail-ddatgan y sefyllfa cyfatebol a'r gyfer 2007/08 yn unol â'r gofynion yma, fe ymddengys felly fod y sefyllfa flaenorol fel a adroddwyd yn wreiddiol ar gyfer 2007/08 wedi newid. Gweler Nodyn 1 'Addasiadau Blwyddyn Blaenorol' i weld manylion y newidiadau.

Dangosir dadansoddiad manylach o'r gwariant ac incwm mesul rhaniad gwasanaeth yn Atodiad A ar dudalennau 85 - 87.

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD AR GRONFA'R CYNGOR

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | | 31 Mawrth 2009 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| | **2,533** | Diffyg am y Flwyddyn ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | | **17,453** |
| | | **Symiau a gynhwysir yn y cyfrif Incwm a Gwariant ond a eithrir, yn unol â statud, wrth gyfrifo'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | |
| (21,915) | | Dibrisiant ac Amhariad Asedau Sefydlog | (34,572) | |
| 7,543 | | Amorteiddiad Grantiau Llywodraeth Gohiriedig | 7,917 | |
| (6,133) | | Gwariant Refeniw wedi'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (5,815) | |
| (849) | | Elw/(Colled) Net ar Werthiant Asedau Sefydlog | 201 | |
| (1,474) | | Costau Ariannol | 322 | |
| (53) | | Trosglwyddiad o Dderbyniadau Cyfalaf | (101) | |
| (13,617) | | Taliad Net am Fuddiannau Ymddeoliad yn unol â 'FRS17' | (17,744) | |
| (36,498) | | | (49,792) | |
| | | **Symiau a eithrir yn y cyfrif Incwm a Gwariant ond a gynhwysir, yn unol â statud, wrth gyfrifo'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | |
| 5,534 | | Lleiafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Cyllido Cyfalaf | 5,865 | |
| 7,008 | | Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor | 8,258 | |
| 16,773 | | Cyfraniad y Cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn y Cyngor a Buddiannau Ymddeol sy'n daladwy'n uniongyrchol i bensiynwyr | 17,855 | |
| 29,315 | | | 31,978 | |
| | | **Trosglwyddiadau i/o Gronfa'r Cyngor dylid cymryd i ystyriaeth wrth bennu'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | |
| 34 | | Balans y Cyfrif Refeniw Tai | 287 | |
| 153 | | Darpariaeth Refeniw Gwirfoddol ar gyfer Cyllido Cyfalaf | 278 | |
| 1,751 | | Trosglwyddiad net i/o Reserfau a Glustnodwyd | 1,148 | |
| 1,938 | | | 1,713 | |
| | **(5,245)** | **Swm ychwanegol net sy'n ofynnol drwy statud ac arferion priodol anstatudol i'w debydu / (credydu) i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | **(16,101)** |
| | **(2,712)** | (Cynnydd)/Lleihad yng Nghronfa'r Cyngor am y Flwyddyn | | **1,352** |
| (8,244) | | Balans ar Gronfa'r Cyngor a Gariwyd Ymlaen – Cronfa'r Cyngor | (10,574) | |
| (3,339) | | Balans ar Gronfa'r Cyngor a Gariwyd Ymlaen – Ysgolion | (3,721) | |
| | **(11,583)** | | | **(14,295)** |
| (2,330) | | (Cynnydd)/Lleihad am y flwyddyn – Cronfa'r Cyngor | 1,341 | |
| (382) | | (Cynnydd)/Lleihad am y flwyddyn – Ysgolion | 11 | |
| | **(2,712)** | | | **1,352** |
| (10,574) | | Balans ar Gronfa'r Cyngor i'w Gario Ymlaen – Cronfa'r Cyngor | (9,233) | |
| (3,721) | | Balans ar Gronfa'r Cyngor i'w Gario Ymlaen – Ysgolion | (3,710) | |
| | **(14,295)** | | | **(12,943)** |

Mae'r Balans ar Gronfa'r Cyngor yn dangos os yw'r Cyngor wedi gor neu tanwario yn erbyn y Dreth Cyngor a gasglwyd am y flwyddyn, gan ystyried y defnydd o reserfau blaenorol a chyfraniadau i gronfeydd a glustnodir ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

Mae'r dataganiad cysoni hwn yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng y diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r (Cynnydd) / Lleihad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn.

## DATGANIAD O'R CYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **2,533** | (Gweddill) / Diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | **17,453** |
| (10,194) | (Gweddill) / Diffyg yn deillio o Ailbrisio Asedau Sefydlog | 3,617 |
| (1,361) | (Gweddill) / Diffyg yn deillio o Ailbrisio Asedion Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 100 |
| 0 | Derbyn Elw heb ei Realeiddio Ynghynt | 1,203 |
| (27,043) | (Enillion) / Colledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau'r Gronfa Bensiwn | 57,616 |
| 15 | (Enillion) / Colledion ar Offerynau Ariannol – addasiad balans blwyddyn cynt | 0 |
| **(36,050)** | Cyfanswm (Enillion) / Colledion Cydnabyddedig am y Flwyddyn | **79,989** |

# Y FANTOLEN - 31 MAWRTH 2009

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Asedau Sefydlog Diriaethol** | | |
| | **Asedau Gweithredol** *(Nodyn 19)* | | |
| 271,025 | Tai Cyngor *(Nodyn 19)* | 252,300 | |
| 151,632 | Tir ac Adeiladau eraill *(Nodyn 19)* | 148,598 | |
| 94,167 | Isadeiladwaith *(Nodyn 19)* | 113,991 | |
| 11,452 | Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar *(Nodyn 19)* | 12,161 | 527,050 |
| 476 | Asedau Cymunedol *(Nodyn 19)* | | 652 |
| | **Asedau An-weithredol** *(Nodyn 19)* | | |
| 1,244 | Eiddo Buddsoddi *(Nodyn 19)* | 1,244 | |
| 2,363 | Asedau yn cael eu Hadeiladu *(Nodyn 19)* | 9,242 | |
| 0 | Asedion Gwarged ar gael i'w Gwerthu | 589 | 11,075 |
| 2,253 | Buddsoddiadau Tymor Hir *(Nodyn 23)* | | 3,090 |
| 648 | Dyledwyr Tymor Hir *(Nodyn 25)* | | 2,063 |
| 535,260 | **Cyfanswm Asedau Tymor Hir** | | 543,932 |
| | **Asedau Cyfredol** | | |
| 1,151 | Stociau a Gwaith mewn llaw | 1,163 | |
| 38,537 | Dyledwyr *(Nodyn 25)* | 32,979 | |
| 78,541 | Buddsoddiadau *(Nodyn 23)* | 63,647 | |
| 73 | Arian mewn llaw (Nodyn 24) | 9,771 | |
| | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | |
| (51,593) | Credydwyr *(Nodyn 26)* | (43,602) | |
| 0 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio (N*ote 27)* | (490) | |
| (1,545) | Benthyciadau yn daladwy ar alwad neu o fewn 12 mis *(Nodyn 28)* | (1,468) | |
| (14,229) | Gorddrafft Banc *(Nodyn 24)* | (25,428) | 36,572 |
| 586,195 | **Cyfanswm Asedau llai Ymrwymiadau Cyfredol** | | 580,504 |
| (148,619) | Benthyciadau yn daladwy o fewn cyfnod yn fwy na 12 mis *(Nodyn 28)* | (137,533) | |
| (4,179) | Darpariaethau *(Nodyn 29)* | (3,713) | |
| (96,447) | Grantiau Llywodraeth Gohiriedig *(Nodyn 30)* | (124,791) | |
| (74,382) | Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio *(Nodyn 31)* | (131,886) | (397,923) |
| 262,568 | **Cyfanswm Asedau llai Ymrwymiadau** | | 182,579 |
| 270,066 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf *(Nodyn 34)* | | 252,464 |
| (1,489) | Cyfrif Addasiadau Offerynau Ariannol *(Nodyn 35)* | | (1,167) |
| 9,249 | Reserf Ail-Brisio *(Nodyn 37)* | | 3,601 |
| 1,361 | Reserf Offerynau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu *(Nodyn 36)* | | 58 |
| 4,600 | Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy *(Nodyn 38)* | | 6,288 |
| 92 | Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig *(Nodyn 39)* | | 67 |
| (74,382) | Reserf Pensiynau *(Nodyn 31)* | | (131,886) |
| 3,721 | Balansau Ysgolion *(Nodyn 40)* | | 3,710 |
| 37,131 | Reserfau a Glustnodwyd *(Nodyn 41)* | | 38,279 |
| | **Balansau Refeniw** | | |
| 10,574 | Cronfa'r Cyngor | 9,233 | |
| 1,645 | Cyfrif Refeniw Tai | 1,932 | 11,165 |
| 262,568 | **Cyfanswm Gwerth Net** | | 182,579 |

Mae'r ffigwr buddsoddiadau tymor byr o £63.6m a'r ffigwr arian mewn llaw o £9.8m uchod yn cynnwys cyfanswm o £23.4m sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y gronfa bensiwn. Dangosir manylion pellach yn Nodyn 24 ar dudalen 41o'r datganiadau yma.

# DATGANIAD LLIF ARIAN – 2008/09

| 2007/08 £'000 | GWEITHGAREDDAU REFENIW | 2008/09 £'000 | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|---|
| (11,753) | **GWEITHGAREDDAU REFENIW** | | (11,928) |
| | **COSTAU CYLLIDO** | | |
| | **Gwariant** | | |
| 9,174 | Llog a dalwyd | 8,474 | |
| | **Incwm** | | |
| (4,856) | Llog Dderbyniwyd | (4,305) | 4,169 |
| (7,435) | | | (7,759) |
| | **GWEITHGAREDDAU CYFALAF** | | |
| | **Gwariant** | | |
| 32,622 | Prynu Asedau Sefydlog | 46,096 | |
| 6,113 | Talu Grantiau a Chyfraniadau | 5,815 | |
| 291 | Benthyciadau Hir Dymor newydd | 461 | |
| 39,026 | | 52,372 | |
| | **Incwm** | | |
| (2,407) | Gwerthu Asedau Sefydlog | (3,640) | |
| (273) | Ad-daliadau gan Ddyledwyr Tymor Hir | (342) | |
| | Ad-daliadau Buddsoddiadau | (130) | |
| (20,961) | Grantiau Cyfalaf *(Nodyn 48)* | (37,971) | 10,289 |
| 7,950 | Llif arian net i fewn/allan cyn cyllido | | 2,530 |
| | **RHEOLI ADNODDAU CYFREDOL** | | |
| (4,994) | Lleihad net mewn Buddsoddiadau Tymor Byr | | (12,192) |
| 2,956 | | | (9,662) |
| | **CYLLIDO** | | |
| | **Gwariant** | | |
| 3,300 | Ad-dalu symiau a fenthycwyd | | 27,363 |
| | **Incwm** | | |
| (3,650) | Benthyciadau Newydd | | (16,200) |
| 2,606 | **Gostyngiad net mewn Arian** *(Nodyn 49)* | | 1,501 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

## NODYN 1 – ADDASIADAU BLWYDDYN BLAENOROL

Gwnaethpwyd nifer o addasiadau er mwyn cywiro ffigurau 2007/08 a sicrhau cysondeb gyda'r datgeliadau cywir yn 2008/09. Dangosir Grantiau Llywodraeth Cyffredinol fel pennawd ar wahân a dangosir balans datganoledig ysgolion fel rhan o Falans Cronfa'r Cyngor

Dangosir crynodeb o'r newidiadau i'r ffigurau blwyddyn cynt yn y tablau isod:

| Cyfrif Incwm a Gwariant | Cyfrifon 2007/08 | Ail-ddatgan | Ffigurau Cymharol yng Nghyfrifon 2008/09 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Corfforaethol a Democratiaeth Craidd | **2,213** | **2,303** | **4,516** |
| Gwasnaethau Eraill | 187,771 | | 187,771 |
| Gweithgareddau Eraill | 14,735 | | 14,735 |
| **Cost Net ar Weithgareddau** | **204,719** | **2,303** | **207,022** |
| Treth y Cyngor | (43,036) | | (43,036) |
| Incwm Net y Dreth Annomestig | (28,679) | | (28,679) |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | (130,471) | (2,303) | (132,774) |
| **Diffyg am y flwyddyn** | **2,533** | **0** | **2,533** |

| Datganiad o'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor | Cyfrifon 2007/08 | Ail-ddatgan | Ffigurau Cymharol yng Nghyfrifon 2008/09 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Diffyg am y Flwyddyn ar y Cyfrif Incwm a Gwariant** | **2,533** | | **2,533** |
| Trosglwyddiad net i/o Reserfau a Glustnodwyd | 2,133 | (382) | 1,751 |
| Symudiadau Eraill ar y Datganiad o'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor | (6,996) | | (6,996) |
| **Swm ychwanegol net sy'n ofynnol drwy statud ac arferion priodol anstatudol i'w credydu i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | **(4,863)** | **(382)** | **(5,245)** |
| **Cynnydd yn y Gronfa Gyffredinol am y Flwyddyn** | **(2,330)** | **(382)** | **(2,712)** |

## NODYN 2 - GWARIANT ADRAN 137, DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Mae Adran 137 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel addaswyd, yn rhoi hawl i awdurdodau lleol gwneud cyfraniadau i gronfeydd elusennol penodol, sefydliad dim er elw sydd yn rhoi gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ac apeliadau maerol. Roedd gwariant y Cyngor o dan yr hawl yma £372,676 yn 2008/09 (£377,412 yn 2007/08) yn bennaf ar donations i gyrff gwirfoddol sydd yn gweithio yn yr ardal leol.

**NODYN 3 - GWASANAETHAU ASIANTOL**

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail asiant i ddarparu rhai gwasanaethau, ac hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.

Y prif weithgareddau yw cynnal a gwella cefnffyrdd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda'r trafodion incwm a adennillir yn 2008/09 yn £26.76m (£26.54m yn 2007/08).

**NODYN 4 - GWARIANT AR GYHOEDDUSRWYDD**

Yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadw cyfrif ar wahân o wariant ar gyhoeddusrwydd a ddiffinnir fel unrhyw gyfathrebiad, mewn unrhyw ffurf, a gyfeirir at y cyhoedd neu at ran o'r cyhoedd. £824,595 oedd gwariant net y Cyngor ar gyhoeddusrwydd yn ystod 2008/09. Mae hyn yn cynnwys yr holl wariant ar hysbysebu at bob pwrpas. Mae hyn yn cymharu gyda £835,400 yn 2007/08.

**NODYN 5 - INCWM DEDDF NWYDDAU A GWASANAETHAU 1970**

Ni chafwyd unrhyw incwm o dan y pennawd yma yn 2008/09 na 2007/08.

**NODYN 6 -PRYDLESU**

Yn y gorffennol polisi'r Cyngor yn gyffredinol oedd cyllido rhai cerbydau a pheth offer drwy prydlesu, ond penderfynwyd yn 2004/05 i gymharu'r gost o prydlesu gyda'r gost o fenthyg er mwyn sicrhau gwerth gorau i'r Cyngor ar gyfer prynu'r asedau. Mae'r newididau yn sgil y Cod Darbodus wedi ein galluogi i fenthyg mwy na'r lefel safonol os oes rheswn digonol i wneud hynny.

Gwerth cyfalaf yr asedau a gyllidwyd drwy'r dull yma yn ystod y flwyddyn oedd dim (dim yn 2007/08) a chyfanswm y taliadau prydlesu am y flwyddyn oedd £460,126 (£535,635 yn 2007/08). Daeth y balansau oedd yn daladwy ar gytundebau les ar 31 Mawrth 2009 i gyfanswm o £467,025 (£817,586 ar 31 Mawrth 2008).

| | Cerbydau, Offer a Chyfarpar 31.03.09 £'000 | Cyfanswm 31.03.09 £'000 |
|---|---|---|
| **Taliadau yn dyledus ar brydlesau Gweithredol yn 2009/10** | **2009/10** | **2009/10** |
| Ar brydlesau sy'n darfod yn 2009/10 | 0 | 0 |
| Ar brydlesau sy'n darfod rhwng 2010/11 a 2013/14 | **217** | **217** |
| Ar brydlesau sy'n darfod yn ystod neu ar ôl 2014/15 | 15 | 15 |
| **Cyfanswm** | **232** | **232** |

**NODYN 7 - LLEIAFSWM Y DDARPARIAETH REFENIW**

Cyfrifwyd y Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (sef y swm y mae gofyn i'r Cyngor roddi o'r neilltu o'r Cyfrif Refeniw er mwyn ad-dalu dyled) ar gyfer 2008/09 fel a ganlyn:

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £000 |
|---|---|---|
| 340 | Cyfrif Refeniw Tai (2% x Gofyn Cyllido Cyfalaf Tai ar 1af Ebrill 2008) | 313 |
| 5,436 | Gwasanaethau Eraill (4% x Gofyn Cyllido Cyfalaf Gwasanaethau Eraill ar 1af Ebrill 2008) | 5,588 |
| 5,776 | | 5,901 |
| (242) | Addasiad oherwydd Cymudiad Grantiau Adnewyddu | (36) |
| **5,534** | Lleiafswm Darpariaeth Refeniw | **5,865** |
| (15,389) | Gwireddwyd drwy Dibrisiant | (16,037) |
| 9,855 | Dosbarthiad gofynnol o'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 10,172 |
| **(5,534)** | | **(5,865)** |

**NODYN 8 - LWFANSAU AELODAU**

Talwyd lwfansau i aelodau'r Cyngor yn ystod 2008/09 fel y nodir isod:-

| 2007/08 £ | | 2008/09 £ |
|---|---|---|
| 1,053,833 | Lwfansau | 1,050,776 |

**NODYN 9 - TALIADAU I WEITHWYR**

Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio Cymru 2005 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgelu'r nifer o weithwyr ble roedd eu tâl (fel a ddiffiniwyd) am y flwyddyn dros £60,000. Dangosir yr wybodaeth angenrheidiol yn y tabl isod.

**Nifer Gweithwyr y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000:**

| Nifer yn 2007/08 | | Nifer yn 2008/09 |
|---|---|---|
| 14 | £60,000 - 69,999 | 18 |
| 4 | £70,000 - 79,999 | 2 |
| 4 | £80,000 - 89,999 | 5 |
| - | £90,000 - 99,999 | - |
| 1 | £100,000 - 109,999 | 1 |

**NODYN 10 - TRAFODION SYLWEDDOL GYDA PHARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn gofyn am wybodaeth yngl◊n â thrafodaethau materol-berthnasol gyda phartion cysylltiedig sydd ddim wedi eu cynnwys rhywle arall yn y cyfrifon.

Cynhwysir yr wybodaeth hon yn y datganiad o'r cyfrifon o dan wahanol benawdau fel a ganlyn:-

(i) Manylion y trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn.
Nodyn 31 ar dudalennau 46 i 51 a Chyfrifon y Gronfa Bensiwn ar dudalennau 73 i 82.

(ii) Manylion y trafodaethau gyda Is-gwmnïau a Chwmnïau Cysylltiol.
Nodyn 43 ar dudalen 59.
Talwyd £2,939,622 i Gwmni Cynnal ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2008/09, roedd £51,971 yn daladwy i'r cwmni a roedd £1,767 yn ddyledus gan y cwmni ar ddiwedd y flwyddyn.
Derbyniwyd £1,183,580 gan CGMA Cyf.
Talwyd £554,852 i CBAC ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2008/09.

(iii) Grantiau'r Llywodraeth Sylweddol.
Cyfrif Incwm a Gwariant ar dudalen 24, Nodyn 15 ar duddalen 35 a Nodyn 48 ar dudalen 64.

(iv) Awdurdodau Lleol Eraill a Chyrff sydd yn gofyn am braesept.
Nodyn 12 ar dudalen 33, Nodyn 13 ar dudalen 33 a Nodyn 25 a 26 ar dudalennau 42 a 43.

(vi) Aelodau a Phrif Swyddogion.
Nodyn 8 a 9 ar dudalen 31.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai gyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau. Talwyd £1,402,664 yn ystod 2008/09 fel grantiau neu chyfraniadau ar gyfer gwasanaethau gan y cyrff yma.
Mae aelodau wedi datgan diddordeb mewn cytundebau neu busnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Talwyd cyfanswm o £730,770 yn ystod 2008/09 o dan y pennawd yma.
Mae nifer o Brif Swyddogion wedi datgan diddordeb mewn cwmniau neu gyrff cyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Talwyd £794,465 i'r cyrff yma yn ystod 2008/09.

**NODYN 11 – SEFYLLFA'R UNEDAU MASNACHOL**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu amryw o wahanol wasanaethau masnachol gan gynnwys rhai a fu'n flaenorol yn rhan o'r gyfundrefn tendro cystadleuol gorfodol. Dangosir isod ddadansoddiad o'r gwir wariant, incwm a sefyllfa net (sydd heb gymryd unrhyw sefyllfa elw neu golled cynlluniedig i'w ystyriaeth).

| **(Elw) / Colled 2007/08** | **Uned** | **Gwariant** | **Incwm** | **(Elw) / Colled 2008/09** |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Gwasanaethau Darparu | | | |
| (138) | *Arlwyo* | 6,252 | (6,221) | 31 |
| (76) | *Glanhau Adeiladau* | 4,616 | (4,749) | (133) |
| 1 | *Gofal Cartref* | 147 | (145) | 2 |
| 478 | Hyfforddiant Gwynedd | 1,316 | (883) | 433 |
| (90) | Uned Argraffu | 519 | (629) | (110) |
| 220 | Unedau Diwydiannol | 542 | (658) | (116) |
| 395 | **Cyfanswm** | 13,392 | (13,285) | 107 |

## NODYN 12 – PRAESEPTAU

Rhoddir manylion isod o'r praeseptau a lefiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn:-

**PRAESEPTAU A LEFIAU A DALWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 5,148 | Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 5,312 |
| 1,118 | Parc Cenedlaethol Eryri | 1,135 |
| 1,171 | Cynghorau Cymuned | 1,265 |
| 134 | Pwyllgor Pysgodfeydd y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru | 142 |
| 63 | Byrddau Traenio Lleol | 65 |
| 7,634 | **Cyfanswm** | 7,919 |

## NODYN 13 - Y DRETH CYNGOR

Mae'r Cygnor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor yn ei ardal a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion yr Awdurdod Heddlu at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2008/09 fel a ganlyn:-

**CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2008/09**

| Band Prisio | Nifer Eiddo yn dilyn gostyngiadau | Lluosogydd Statudol | Nifer Cyfatebol Eiddo Band D |
|---|---|---|---|
| A* | 15 | 5/9 | 8.06 |
| A | 7,128 | 6/9 | 4,751.89 |
| B | 13,057 | 7/9 | 10,155.77 |
| C | 10,472 | 8/9 | 9,308.26 |
| D | 9,077 | 1 | 9,077.25 |
| E | 7,163 | 11/9 | 8,754.17 |
| F | 3,483 | 13/9 | 5,031.49 |
| G | 1,114 | 15/9 | 1,855.83 |
| H | 160 | 18/9 | 319.00 |
| I | 43 | 21/9 | 100.33 |
| | | **Cyfanswm** | 49,362.05 |
| | **Sylfaen y Dreth Cyngor ar ôl lwfans colledion casglu** | | 48,379.37 |

Rhoddir dadansoddiad o'r Incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 51,752 | Treth Cyngor a godwyd | 54,068 |
| (8,602) | **Llai** swm yn daladwy i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | (9,007) |
| (112) | **Llai** Darpariaeth dyledion drwg | (187) |
| (9) | Rhyddhad Trosiannol | 8 |
| 7 | Grant Rhyddhad Trosiannol | 3 |
| 43,036 | | 44,885 |

**NODYN 14 - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL**

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond cynghorau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Gynulliad Cenedlaethaol Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r Gronfa yma i Awdurdodau Lleol ar sail poblogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth am y flwyddyn (46.6c yn 2008/09) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2008/09 roedd yna 6,941 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £72,207,085.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 27,014 | Trethi Annomestig a godwyd | 28,273 |
| (329) | **Llai** Lwfans Costau Casglu | (334) |
| (116) | **Llai** Darpariaeth Dyledion Drwg | (304) |
| (26,569) | **Llai** swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | (27,635) |
| 0 | | 0 |
| (28,679) | Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol | (31,463) |
| (28,679) | **Incwm net o'r Trethi Annomestig** | (31,463) |

**NODYN 15 – GRANTIAU LLYWODRAETH CYFFREDINOL**

Fe roddir dadansoddiad o grantiau llywodraeth cyffredinol isod:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 130,471 | Grant Cynnal Refeniw | 131,857 |
| 1,344 | Grant Cymell Perfformiad | 1,338 |
| 494 | Grant Amddifadedd | 494 |
| 465 | Grant LABGI | 0 |
| 132,774 | | 133,689 |

**NODYN 16 – Y CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU**

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwyliwyd i'r cyfrif adennill y costau dros unrhyw gyfnod o dair mlynedd symudol, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Mae colled o £90,222 dros y dair mlynedd diwethaf, gyda gorwariant 2006/07 yn gyfrifol am y mwyafrif. Diffyg incwm, yn sgil yr hinsawdd economaidd, sydd wedi creu'r golled o £14,887 yn 2008/09.

| | £ |
|---|---|
| Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ac eithrio TAW) | (518,540) |
| Cyfanswm gwariant | 533,427 |
| (Elw)/Colled ar gyfer 2008/09 | 14,887 |
| (Elw)/Colled ar gyfer 2007/08 | 3,791 |
| (Elw)/Colled ar gyfer 2006/07 | 71,544 |
| **(Elw)/Colled ar gyfer y dair mlynedd diwethaf** | 90,222 |

**NODYN 17 – EITEMAU EITHRIADOL**

Eitem Eithriadol yn gysylltiedig â darparieth penodol ar gyfer gofynion cyflog cyfartal yn 2007/08 yw hon.

## NODYN 18 – FFIOEDD ARCHWILIO

Roedd ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer archwiliad 2008/09 fel a nodir isod:-

| 2007/08 £ | | 2008/09 £ |
|---|---|---|
| 260,822 | Ffioedd Archwilio Safonol | 255,670 |
| 80,490 | Ffioedd Arolygu Statudol | 83,300 |
| 127,612 | Ffioedd ar gyfer hawliadau a dychweliadau grant | 161,648 |
| (14,738) | Ffioedd eraill | 4,150 |
| 454,186 | | 504,768 |

Yn gynwysedig yn y Ffioedd Eraill yn 2007/08 mae ad-daliad o £14,738 gan fod anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnwys ffi am archwilio cyfrifon y Gronfa Bensiwn. Anfonebwyd y Gronfa Bensiwn yn uniongyrchol yn 2008/09 ac felly nid oes ad-daliad yn ffigurau 2008/09 uchod.

## NODYN 19 - ASEDAU SEFYDLOG

Fe ddangosir yn y tabl isod y symudiadau ar y gwahanol gategorïau o asedau sefydlog yn ystod 2008/09:-

**TRAFODION ASEDAU SEFYDLOG 2008/09**

| | Asedau Gweithredol | | | | | Asedau Anweithredol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tai Cyngor** | **Tir ac Adeiladau** | **Isadeilad-waith** | **Cerbydau, Offer a Chyfarpar** | **Asedau Cymun-edol** | **Eiddo Budd-soddi** | **Asedau yn cael eu Adeiladu** | **Asedau Gwarged** | **Cyfanswm** |
| **Gwerth** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31.03.08** | 277,697 | 154,460 | 96,787 | 14,714 | 483 | 1,244 | 2,363 | 0 | 547,748 |
| Addasu Balans Agoriadol | | (1,447) | (55) | 707 | | | 55 | 740 | 0 |
| Ychwanegiadau | 6,594 | 7,998 | 22,681 | 3,620 | 252 | 0 | 6,824 | 0 | 47,969 |
| Amhariad | (11,372) | (7,049) | | | (69) | | | (45) | (18,535) |
| Gwerthiannau | (1,024) | | | | | | | (2,338) | (3,362) |
| Ail-brisio | (6,147) | 298 | | | | | | 2,232 | (3,617) |
| **Balans ar 31.03.09** | 265,748 | 154,260 | 119,413 | 19,041 | 666 | 1,244 | 9,242 | 589 | 570,204 |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| **Balans ar 31.03.08** | 6,672 | 2,828 | 2,620 | 3,262 | 7 | 0 | 0 | 0 | 15,389 |
| Cost | 6,776 | 2,834 | 2,802 | 3,618 | 7 | 0 | 0 | | 16,037 |
| **Balans ar 31.03.09** | 13,448 | 5,662 | 5,422 | 6,880 | 14 | 0 | 0 | 0 | 31,426 |
| **Gwerth Net** | | | | | | | | | |
| **Ar 31.03.08** | 271,025 | 151,632 | 94,167 | 11,452 | 476 | 1,244 | 2,363 | 0 | 532,359 |
| **Ar 31.03.09** | 252,300 | 148,598 | 113,991 | 12,161 | 652 | 1,244 | 9,242 | 589 | 538,777 |

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) Cyngor Gwynedd ar 1af Ebrill 2005 yn unol â'r polisïau a nodwyd yn Nodyn 2 o'r Datganiad Polisïau Cyfrifo sy'n ymddangos ar flaen y Datganiad o'r Cyfrifon.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r Asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn y rhagymadrodd eglurhaol.

Gweler Nodyn 4 o'r Datganiad Polisïau Cyfrifo ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol categoriau o asedau.

Fe roddir dadansoddiad o Asedau sefydlog y Cyngor yn y tabl canlynol:-

**DADANSODDIAD O NIFER YR ASEDAU SEFYDLOG AR Y GOFRESTR ASEDAU**

| | **31 Mawrth 2009** |
|---|---|
| Tai Cyngor | 6,324 |
| Ysgolion (yn eithrio Ysgolion Eglwysig) | 110 |
| Cartrefi a Chanolfannau Gwasanaethau Cymdeithasol | 27 |
| Swyddfeydd a Neuaddau Cyhoeddus | 23 |
| Depos / Storfeydd | 17 |
| Canolfannau Hamdden a Phyllau Nofio | 20 |
| Canolfannau Ieuenctid a Chymdeithasol | 15 |
| Meysydd Parcio oddi ar y stryd | 31 |
| Llyfrgelloedd | 16 |
| Stadau Diwydiannol | 20 |
| Siopau | 16 |
| Amlosgfa | 1 |
| Mynwentydd | 1 |
| Archifdy | 1 |
| Amgueddfeydd | 4 |
| Neuaddau Cyhoeddus | 3 |
| Hostel | 2 |
| Amrywiol adeiladau a safleoedd eraill | 61 |
| Cerbydau | 301 |
| Priffyrdd (Cilomedrau) | 2,908 |
| Pontydd | 744 |
| Asedau Cymunedol | 6 |
| Manddaliadau (Hectarau) | 1,267 |

Defnyddir 14 Ysgol Eglwysig gan y gwasanaeth addysg sydd heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol.

## NODYN 20 - YMRWYMIADAU AR GYTUNDEBAU CYFALAF

Roedd yr ymrwymiadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2009 fel y ganlyn:-

| | Swm y Cytundeb £'000 | Taliadau hyd yma £'000 | Swm heb ei dalu £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwelliannau Maes Barcer, Caernarfon – Rhan 4 a 5 | 2,297 | 101 | 2,196 |
| Rhan 1-4, Atgyweirio Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | 1,421 | 94 | 1,327 |
| Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, Rhan 2 | 2,406 | 1,124 | 1,282 |
| Gwelliannau Ffordd A499 Aberdesach i Lanaelhaearn | 13,654 | 12,467 | 1,187 |
| Gwaith Adfer ac Uwchraddio'r Insiwleiddio, Ffordd Mela, Pwllheli – Rhan 2 | 817 | 43 | 774 |
| Gwelliannau Tai Cyngor - Rhiwlas a Deiniolen | 961 | 204 | 757 |
| Adeiladu Ysgol Cae Top newydd, Bangor | 3,980 | 3,479 | 501 |
| Gwelliannau Tai Cyngor, Dol Elen, Groeslon a Maes Tryfan | 621 | 161 | 460 |
| Addasiadau ac Ail-doi Ysgol Glan y Mor, Pwllheli | 958 | 515 | 443 |
| Ail-adeiladau Neuadd Chwaraeon, Tywyn | 584 | 155 | 429 |
| Gwaith Adfer ac Uwchraddio'r Insiwleiddio, Ffordd Mela, Pwllheli – Rhan 1 | 817 | 414 | 403 |
| Cytundeb Gwresogi 2009/10 Cyngor Gwynedd Rhan 5/1 | 400 | 29 | 371 |
| Dwyrain Blaenau Ffestiniog Cynllun Atgywirio Grŵp – Rhan 5/1 | 336 | 21 | 315 |
| Gwelliannau Llyfrgell Bangor | 462 | 155 | 307 |

## NODYN 21 - DADANSODDIAD O ASEDAU NET A DDEFNYDDIR

**DADANSODDIAD O ASEDAU NET A DDEFNYDDIR**

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 87,071 | Cronfa'r Cyngor | 13,460 |
| 175,497 | Cyfrif Refeniw Tai | 169,119 |
| 262,568 | **Cyfanswm** | 182,579 |

## NODYN 22 – OFFERYNAU ARIANNOL

Dangosir isod gwybodaeth am y gwahanol categoriau o'r offerynau ariannol y Cyngor, fel a ddiffinir, ar ddiwedd y flwyddyn.

**DADANSODDIAD O OFFERYNAU ARIANNOL Y CYNGOR**

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 117,854 | Benthyciadau a Dyledwyr | 100,959 |
| 2,237 | Asedau Ariannol ar gael i'w gwerthu | 804 |
| 16 | Asedau Ariannol ar Werth Teg trwy'r cyfrif Elw a Cholled | 16 |
| (201,885) | Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi eu amorteiddio | (182,603) |
| (81,778) | **Cyfanswm** | (80,824) |

Oherwydd nad yw'r dadansoddiad gofynnol uchod yn cyd-fynd gyda'r ffurf dosbarthu ar y Fantolen, dangosir yn y tabl isod manylion y pennawd perthnasol ble mae'r eitemau perthnasol wedi eu cynnwys.

**DADANSODDIAD O OFFERYNAU ARIANNOL Y CYNGOR**

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 2,253 | Buddsoddiadau Tymor Hir *(Nodyn 23)* | 3,090 |
| 648 | Dyledwyr Tymor Hir *(Nodyn 25)* | 2,063 |
| 38,537 | Dyledwyr Tymor Byr *(Nodyn 25)* | 32,979 |
| 78,541 | Buddsoddiadau Tymor Byr *(Nodyn 23)* | 63,647 |
| (51,593) | Credydwyr *(Nodyn 26)* | (43,602) |
| (1,545) | Benthyciadau Tymor Byr *(Nodyn 28)* | (1,468) |
| (148,619) | Benthyciadau Tymor Hir *(Nodyn 28)* | (137,533) |
| (81,778) | **Cyfanswm** | (80,824) |

## NODYN 23 – BUDDSODDIADAU

| 31 Mawrth 2008 £'000 | BUDDSODDIADAU | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| | **Buddsoddiadau Tymor Hir** | |
| 2,086 | Cwmni Gwastraff Môn-Arfon | 803 |
| 150 | Debentur Cymdeithas y Cynghorau Dosbarth | 0 |
| 0 | Ar y Farchnad Arian | 2,270 |
| 1 | Stoc Cwmnïau | 1 |
| 16 | Stoc y Llywodraeth | 16 |
| 2,253 | **Cyfanswm Tymor Hir** | 3,090 |
| | **Buddsoddiadau Tymor Byr** | |
| 77,065 | Ar y Farchnad Arian | 62,603 |
| 1,476 | Croniad Llog | 1,044 |
| 78,541 | **Cyfanswm Tymor Byr** | 63,647 |

Mae'r buddsoddiad mewn Cwmni Gwastraff Môn Arfon yn cynrychioli buddiannau o 50% mewn cwmni gwaredu gwastraff lleol ar y cyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Cwmni yn y broses o gael ei dirwyn i ben a gwelir manylion pellach yn Nodyn 41 dudalen 58. Fodd bynnag, mae'r daliad fel y manylir uchod yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa ar 31 Mawrth 2009.

Cynhwysir y buddsoddiadau tymor byr yn y cyfrifon ar sail cost gwreiddiol a'r llog derbyniadwy hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Asesir gwerth teg y buddsoddiadu tymor byr ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| BUDDSODDIADAU TYMOR BYR | Cost £'000 | Gwerth Teg £'000 |
|---|---|---|
| Adneuon Galwadwy | 5,000 | 5,058 |
| Adneuon Cyfnod Penodol | 61,000 | 60,896 |
| | 66,000 | 65,954 |

Mae gan y Cyngor adnau o £4m gyda Heritable Bank sydd yn bank wedi ei cofrestru yn yr Deyrnas Unedig o dan gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni mewn gweinyddiaeth ar 7 Hydref 2008. Amlinellwyd mewn adroddiad cynnydd credydwyr dyddiedig 17 Ebrill 2009, a ryddhawyd gan y gweinyddwyr Ernst a Young, bod yr adenillion i gredydwyr yn cael eu taflunio fel 80c ym mhob £ erbyn diwedd 2013, gyda'r taliad difidend cyntaf o 15c ym mhob £ yn daladwy yn ystod haf 2009. Felly, mae'r Cyngor wedi penderfynu adnabod amhariad yn seiliedig ar ad-ennill 80c ym mhob £.

Rhagwelir y bydd rhywfaint o flaen lwytho'r ad-daliadau yma a bydd gwerthiant terfynol o'r asedau yn digwydd ar ôl i'r llyfrau gael eu rhedeg i lawr at ddiwedd 2012. Felly, wrth gyfrifo'r amhariad mae'r Cyngor wedi gwneud yr tybiaethau ganlynol ynghylch amseriad yr adenillion:

Gorffennaf 2009 – 15%
Gorffennaf 2010 – 30%
Gorffennaf 2011 – 15%
Gorffennaf 2012 – 10%
Gorffennaf 2013 – 10%

Mynegir yr adenillion fel canran o gais yr awdurdod i'r gweinyddiaeth, sydd yn cynnwys llog wedi ei gronni hyd at 6 Hydref 2008.

Cynhwysir gwerth teg y adnau yma o dan buddsoddiadau tymor byr yn y tablau uchod. Canlyniad y cyfrifiad gwerth teg oedd amhariad o £1,260,396, (sef y golled potensial o £784,974 a £475,422 sy'n swm damcaniaethol o log heb ei ennill) a gafodd ei rannu £47,265 i'r Cyfrif Refeniw Tai, £178,094 i'r Gronfa Bensiwn a £1,035,037 i Gronfa'r Cyngor (sef colled potenisal o £644,621 a llog damcaniaethol o £390,416). Cynhwysir yr amhariad yn Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Wrth gwrs, bydd y gwir golled erbyn 2013 yn gallu bod yn fwy neu yn llai na'r golled potensial amcangyfrifir uchod. Pe bai sefyllfa'r economi yn gwella, a gwerth eiddo yn benodol yn cynyddu, gallasia fod dim colled o gwbl. Fodd bynnag, amcangyfrifir yr amhariad yn unol â dehongliad cytunedig o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2009.

**NODYN 24 – ARIAN MEWN LLAW AC GORDDRAFFT BANC**

Dangosir crynodeb o sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas ag arian mewn llaw, gorddrafft banc a buddsoddiadau tymor byr.

**ARIAN A BUDDSODDIADAU TYMOR BYR**

| 31 Marwth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---:|---|---:|
| 78,541 | Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 23) | 63,647 |
| 73 | Adneuon Banc a Balansau Imprest | 9,771 |
| (14,229) | Gorddrafft Banc | (25,428) |
| 64,385 | Sefyllfa Net | 47,990 |

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuon Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn eu cyfrifon banc yn y tymor byr ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Cronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhannir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr a'r Adneuon Banc a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad y fantolen. Oherwydd y ffaith bod y buddsoddiadau yn enw Cyngor Gwynedd maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. Mae'r tabl uchod yn dangos sefyllfa net Cyngor Gwynedd ar ddyddiad y Fantolen. £23.4m (£11.9m ar 31 Mawrth 2008) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuon Banc y Gronfa Bensiwn.

**NODYN 25 – DYLEDWYR**

Fe roddir dadansoddiad o ddyledwyr y Cyngor isod:-

**DYLEDWYR YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN**

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 21,689 | Adrannau'r Llywodraeth | 15,412 |
| 5,346 | Cyrff Cyhoeddus Eraill | 4,853 |
| 368 | Asiantaethau Cyhoeddus Eraill | 2,674 |
| 1,783 | Talwyr y Dreth Cyngor | 1,940 |
| 842 | Talwyr Trethi Annomestig Cenedlaethol | 1,143 |
| 1,092 | Tenantiaid | 1,095 |
| 13 | Morgeiswyr | 21 |
| 10,130 | Amrywiol Ddyledwyr Eraill | 8,650 |
| 370 | Taliadau 2009/10 a wnaed yn 2008/09 | 131 |
| 781 | Incwm 2008/09 wedi ei dderbyn yn Ebrill a Mai 2009 | 952 |
| 42,414 | | 36,871 |
| (3,877) | **Llai**: Darpariaeth Dyledion Drwg *(Nodyn 29)* | (3,892) |
| 38,537 | **Dyledwyr Net** | 32,979 |

**DYLEDWYR YN DDYLEDUS AR ÔL BLWYDDYN**

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Adrannau'r Llywodraeth | 1,321 |
| 505 | Benthyciadau ceir a beic i weithwyr | 666 |
| 23 | Morgeisi - Cyffredinol | 22 |
| 66 | - Cyn-denantiaid | 38 |
| 32 | Barcud (elfen Cyngor Gwynedd) | 0 |
| 10 | Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd | 5 |
| 12 | Eraill | 11 |
| 648 | **Cyfanswm** | 2,063 |

**NODYN 26 – CREDYDWYR**

Fe roddir dadansoddiad o credydwyr y Cyngor isod:-

**DADANSODDIAD O GREDYDWYR Y CYNGOR**

| 31 Mawrth 2008 £'000 | | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 20,752 | Adrannau'r Llywodraeth | 11,549 |
| 4,752 | Awdurdodau Cyhoeddus Eraill | 2,504 |
| 224 | Asiantaethau Cyhoeddus Eraill | 503 |
| 1,401 | Talwyr y Dreth Cyngor | 1,562 |
| (138) | Talwyr Trethi Annomestig Cenedlaethol | 48 |
| 11,457 | Amrywiol Gredydwyr Eraill | 15,363 |
| 126 | Derbyniadau Rhent ymlaen llaw | 121 |
| 598 | Derbyniadau Eraill ymlaen llaw | 439 |
| 12,421 | Taliadau Ebrill a Mai a wnaed am nwyddau a dderbyniwyd neu am waith a wnaed cyn 31 Mawrth 2009 | 11,513 |
| 51,593 | | 43,602 |

Roedd cyfrifon 2007/08 yn cynnwys balans credydwyr oedd yn perthyn i forgeisi. Datganwyd y ffigwr yma yn anghywir a dylai'r swm fod wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn ffigwr dyledwyr morgeisi yng nghyfrifon llynedd. Mae'r ffigwr yma wedi ei gywiro yn y ffigyrau cymharol uchod yn ogystal ag yn y nodyn dyledwyr, sydd yn dangos ffigwr o £13,000 yn hytrach na'r £141,000 dyledwyr a £128,000 credydwyr oedd yn ymddangos yng nghyfrifon 2007/08.

**NODYN 27 – GRANTIAU CYFALAF HEB EU DEFNYDDIO**

Ar ddyddiad y fantolen roedd nifer o grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ond oedd heb eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf ar y dyddiad hwnnw. Dangosir swm o £490,000 fel grantiau cyfalaf heb eu defnyddio gan fod cytundeb i ddefnyddio'r grantiau yma i ariannu gwariant yn ystod 2009/10.

## NODYN 28 – BENTHYCIADAU

**DADANSODDIAD O FENTHYCIADAU'R CYNGOR**

| **Ffynhonnell y Benthyciad** | **Amrediad Llog sy'n daladwy %** | **31.3.2008 £'000** | **Dyledus 31.3.2009 £'000** |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus | 3.75 - 10.625 | 149,194 | 121,740 |
| Banc Barclays | | 0 | 16,200 |
| | | 149,194 | 137,940 |
| **Daw cyfnod y benthyciadau i ben fel a ganlyn** | | | |
| O fewn blwyddyn | | 575 | 407 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | | 541 | 5,389 |
| Rhwng 2 a 5 mlynedd | | 17,827 | 24,302 |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | | 10,038 | 5,775 |
| Dros 10 mlynedd | | 120,213 | 102,067 |
| Cyfanswm | | 149,194 | 137,940 |
| **Ychwanegir: Croniad llog taladwy ar 31 Mawrth** | | 970 | 1,061 |
| **Llai: Taladwy o fewn blwyddyn sydd yn dangos o dan benthyciadau tymor byr** | | (1,545) | (1,468) |
| **Cyfanswm benthyciadau tymor hir** | | 148,619 | 137,533 |

Cynhwysir y benthyciadau yn y cyfrifon ar sail cost gwreiddiol a'r llog taladwy hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Asesir gwerth teg y benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn ar sail cyfraddau llog 'ad-daliad cynnar' ar y diwrnod hwnnw fel y ganlyn:

**BENTHYCIADAU**

| | Cost **£'000** | Gwerth Teg **£'000** |
|---|---|---|
| Benthyciad BBGC - Aeddfedrwydd | 119,637 | 156,816 |
| Benthyciad BBGC - Blwydd-dâl | 664 | 811 |
| Benthyciad BBGC - Blynyddol | 1,439 | 1,770 |
| | 121,740 | 159,397 |
| Banc Barclays - LOBO | 16,200 | 17,375 |
| | 137,940 | 176,772 |

## NODYN 29 - DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Nid yw'n bosibl o dan egwyddorion cyfrifeg i wneud darpariaethau ar gyfer gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny ar dudalennau 56 i 58 yn Nodyn 41.

**SYMUDIAD AR Y CYFRIFON DARPARIAETHOL**

| | Balans ar 31 Mawrth 2008 | Ychwanegiad / (Gostyngiad) / Trosglwyddiad | Defnydd yn y flwyddyn | Balans ar 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Dyledion Drwg** | | | | |
| Tai | 498 | 111 | (58) | 551 |
| Treth Annomestig | 410 | 305 | (233) | 482 |
| Y Dreth Cyngor | 577 | 187 | (187) | 577 |
| Dyledwyr | 2,392 | 351 | (461) | 2,282 |
| **Is-gyfanswm Darparieth Dyledion Drwg** | 3,877 | 954 | (939) | 3,892 |
| **Eraill** | | | | |
| Hawliadau yn erbyn cyn Gynghorau | 481 | 0 | 0 | 481 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 27 | 0 | 0 | 27 |
| Ad-daliadau Treth Cyngor | 408 | 0 | 0 | 408 |
| Darpariaeth Gofynion Cyflog Cyfartal | 2,400 | 0 | (466) | 1,934 |
| Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl | 117 | 0 | 0 | 117 |
| Darpariaeth Gwastraff | 746 | 0 | 0 | 746 |
| **Is-gyfanswm Darpariaethau Eraill** | 4,179 | 0 | (466) | 3,713 |
| **Cyfanswm** | 8,056 | 954 | (1,405) | 7,605 |

**NODYN 30 – GRANTIAU LLYWODRAETH GOHIRIEDIG**

Mae'r balans ar y cyfrif hwn yn cynrychioli gwerth y cyfraniadau a'r grantiau cyfalaf hynny a ddefnyddwyd i gyllido gwaith prynu neu wella asedau sefydlog parhaol sy'n cael eu dal yn y gofrestr asedau, neu dreuliau a ohirwyd. Mae'r balans ar y cyfrif hwn yn cael ei ryddhau i refeniw i gyfateb i'r dibrisiant. Mae'r holl grantiau sy'n berthnasol i wariant refeniw wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud yn cael eu rhyddhau yn y flwyddyn.

**GRANTIAU LLYWODRAETH GOHIRIEDIG**

| 2007/08 | | 2008/09 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 83,011 | **Balans ar 1 Ebrill** | 96,447 |
| 20,979 | Grantiau a ddefnyddwyd | 36,262 |
| | Grantiau a chyfraniadau wedi eu rhyddhau | |
| (2,660) | - ar ddibrisiant | (3,084) |
| (4,883) | - ar wariant refeniw wedi'w ariannu ddrwy statud | (4,834) |
| 96,447 | **Balans ar 31 Mawrth** | 124,791 |

**NODYN 31 – COSTAU PENSIWN**

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Awdurdod yn cynnig buddion ymddeol. Er nad yw'r buddion yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol. Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun pensiwn gwahanol, gyda'r ddau yn rhoi budd-daliadau diffinedig i'r aelodau yn ôl cyflog a gwasanaeth, sef Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Athrawon.

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** ar gyfer gweithwyr cyffredin, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion a ddiffinnir a phensiwn cyflog terfynol, sy'n golygu bod yr awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio ymrwymiadau'r gronfa gyda'r asedau a fuddsoddir.
b) **Cynllun Pensiwn Athrawon** - Gweinyddir hwn gan Adran Addysg y Llywodraeth ar sail "cronfa dybiannol". At ddibenion Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS 17) diffinir Cynllun Pensiwn Athrawon fel cynllun buddion a ddiffinir lle na ellir priodoli'r asedau ac ymrwymiadau'r cynllun i gyflogwyr unigol ar sail rhesymol a chyson.

O dan Ddatganiad Ymarfer Argymelledig (SORP) 2008, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r newid i Fuddion Ymddeol, FRS17. O ganlyniad mae'r stociau sy'n cael eu dal fel asedau yn y cynllun pensiwn buddion a ddiffinnir, yn cael eu prisio ar bris bid yn hytrach na phris canol y farchnad. Nid yw'r newid yng ngwerth 31 Mawrth 2008 yn cael ei ystyried yn faterol (£0.79m neu 0.1% o gyfanswm net asedau'r Gronfa), felly nid yw'r ffigyrau cymharol wedi cael eu hail ddatgan.

**a) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y Gwariant Net ar Wasanaethau pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar ôl Gwariant Net y Gweithgareddau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad o'r Symudiad ar y Gronfa Gyffredinol:

| | **Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd £'000** | | **Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd £'000** | | **Cyfanswm £'000** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2008 £'000** | **31 Mawrth 2009 £'000** | **31 Mawrth 2008 £'000** | **31 Mawrth 2009 £'000** | **31 Mawrth 2008 £'000** | **31 Mawrth 2009 £'000** |
| **Gwariant Net ar Wasanaethau** | | | | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol | (13,271) | (9,662) | 0 | 0 | (13,271) | (9,662) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol | (161) | (3,913) | 0 | 0 | (161) | (3,913) |
| Cwtogiad a Setliad | (113) | (67) | 0 | 0 | (113) | (67) |
| **Gwariant Net ar Weithgareddau** | | | | | | |
| Cost Llog | (19,770) | (25,212) | (2,731) | (3,219) | (22,501) | (28,431) |
| Enillion disgwyliedig ar yr Asedau yn y Cynllun | 19,966 | 22,295 | 2,463 | 2,034 | 22,429 | 24,329 |
| **Cyfanswm i'w ariannu allan o'r Dreth** | | | | | | |
| Symudiad ar y Reserf Pensiwn | (3,424) | (1,296) | 268 | 1,185 | (3,156) | (111) |
| **Gwir gyfanswm pensiynau gafodd ei roi yn erbyn y Dreth yn ystod y flwyddyn** | | | | | | |
| Cyfraniadau Cyflogwr i'r Cynllun | (16,773) | (17,855) | 0 | 0 | (16,773) | (17,855) |

Yn ychwanegol i'r enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, mae colledion o £57,615,878 (2007/08: enillion o £27,042,510) wedi eu cynnwys yn y Datganiad o'r Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig. Mae effaith gronnol y colledion actiwaraidd sy'n cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Cyfanswm Enillion a Chollledion Cydnabyddedig, yn £68,126,606.

Yr asedau a'r ymrwymiadau ar gyfer budddion ymddeol

Cysoni gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun:

| | Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth | | Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth | | Cyfanswm 31 Mawrth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2008** | **2009** | **2008** | **2009** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 1 Ebrill | (362,293) | (360,943) | (52,547) | (48,606) | (414,840) | (409,549) |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol | (13,271) | (9,662) | - | - | (13,271) | (9,662) |
| Cost Llog | (19,770) | (25,213) | (2,731) | (3,219) | (22,501) | (28,432) |
| Cyfraniadau gan Aelodau | (4,259) | (4,708) | - | - | (4,259) | (4,708) |
| Enillion Actiwaraidd | 28,879 | 35,355 | 2,687 | 2,090 | 31,566 | 37,445 |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol | (161) | (3,913) | - | - | (161) | (3,913) |
| Colledion ar Gwtogiad | (113) | (67) | - | - | (113) | (67) |
| Amcangyfrif o'r Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | 747 | 808 | 736 | 739 | 1,483 | 1,547 |
| Amcangyfrif o'r Buddion Dalwyd | 9,298 | 8,489 | 3,249 | 3,239 | 12,547 | 11,728 |
| **31 Mawrth** | **(360,943)** | **(359,854)** | **(48,606)** | **(45,757)** | **(409,549)** | **(405,611)** |

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun:

| | Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth | | Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth | | Cyfanswm 31 Mawrth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2008** | **2009** | **2008** | **2009** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 1 Ebrill | 272,947 | 303,674 | 35,881 | 29,846 | 308,828 | 333,520 |
| Enillion Ddisgwylid ar yr Asedau | 19,966 | 22,295 | 2,463 | 2,034 | 22,429 | 24,329 |
| Cyfraniadau gan Aelodau | 4,259 | 4,708 | - | - | 4,259 | 4,708 |
| Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 15,075 | 15,962 | - | - | 15,075 | 15,962 |
| Cyfraniadau mewn perthynas a Buddion Heb eu Hariannu | 747 | 808 | 736 | 739 | 1,483 | 1,547 |
| Enillion a Cholledion Actiwaraidd | 725 | (87,149) | (5,249) | (7,912) | (4,524) | (95,061) |
| Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | (747) | (808) | (736) | (739) | (1,483) | (1,547) |
| Buddion Dalwyd | (9,298) | (8,489) | (3,249) | (3,239) | (12,547) | (11,728) |
| **31 Mawrth** | **303,674** | **251,001** | **29,846** | **20,729** | **333,520** | **271,730** |

Penderfynir ar enillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun drwy ystyried yr enillion a ddisgwylir eu cael ar yr asedau sy'n tanlinellu'r polisi buddsoddi cyfredol. Mae'r cynnyrch a ddisgwylir ar y buddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar gynnyrch adbryniant gros fel ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r enillion a ddisgwylir ar fuddsoddiadau cyfranddaliadau yn adlewyrchu cyfradd o enillion hir dymor gwirioneddol a brofwyd yn y marchnadau perthnasol.

Yn ystod y flwyddyn roedd y golled actiwaraidd ar asedau'r cynllun yn £69,938,011 (2007/08: colled o £16,316,101).

Hanes y Cynllun

| | Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth | | Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth | | Cyfanswm 31 Mawrth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2008** | **2009** | **2008** | **2009** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg yr Asedau | 309,031 | 257,445 | 26,136 | 16,280 | 335,167 | 273,725 |
| Gwerth Presennol yr Ymrwymiadau | (360,943) | (359,854) | (48,606) | (45,757) | (409,549) | (405,611) |
| **Diffyg y Gronfa** | **(51,912)** | **(102,409)** | **(22,470)** | **(29,477)** | **(74,382)** | **(131,886)** |

| | Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth | | | Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005** | **2006** | **2007** | **2005** | **2006** | **2007** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg yr Asedau | 193,697 | 249,151 | 277,282 | 31,244 | 34,602 | 32,906 |
| Gwerth Presennol yr Ymrwymiadau | (288,130) | (356,980) | (362,293) | (53,207) | (55,751) | (52,547) |
| **Diffyg y Gronfa** | **(94,433)** | **(107,829)** | **(85,011)** | **(21,963)** | **(21,149)** | **(19,641)** |

Mae'r ymrwymiadau yn dangos faint o fuddion ymddeol sydd gan yr awdurdod i'w dalu yn yr hir-dymor. Mae cyfanswm y ddifyg, sef £133.88m, yn effeithio'n sylweddol ar werth net yr awdurdod fel a nodir yn y Fantolen.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa'r awdurdod yn parhau i fod yn iach, gan fod y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ad-ennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel a asesir gan actiwari'r cynllun, dros weddill oes gwaith y gweithwyr.

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan y Cyngor, fod yn £16.5m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2010.

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ag ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu asesu ar sail actiwaraidd drwy ddefnyddio'r dull taflunio uned, sef
amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy mewn blynyddoedd yn ddibynnol ar dybiaethau am nifer marwolaethau, lefel cyflogau a.y.y.b. Mae Cynllun Pensiwn Gwynedd wedi cael ei asesu gan Hymans Robertson, sef cwmni actiwaraidd annibynnol. Dyddiad y gwerthusiad actiwariadd llawn diweddaraf oedd 31 Mawrth 2007. Dyma'r prif dybiaethau maent wedi eu defnyddio yn eu cyfrifiad:-

| | 31 Mawrth 2008 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| **Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar asedau'r cynllun:** | | |
| Cyfranddaliadau | 7.7% | 7.0% |
| Bondiau | 5.7% | 5.4% |
| Eiddo | 5.7% | 4.9% |
| Arian | 4.8% | 4.0% |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | | |
| Hyd oes pensiynwyr cyfredol am 65 oed | | |
| Dynion | 19.6 blwyddyn | 19.6 blwyddyn |
| Merched | 22.5 blwyddyn | 22.5 blwyddyn |
| Hyd oes pensiynwyr y dyfodol pan yn 65 oed | | |
| Dynion | 20.7 blwyddyn | 20.7 blwyddyn |
| Merched | 23.6 blwyddyn | 23.6 blwyddyn |
| Cyfradd Chwyddiant | 3.6% | 3.1% |
| Cyfradd Chwyddiant Cyflogau | 5.1% | 4.6% |
| Cyfradd Chwyddiant Pensiynau | 3.6% | 3.1% |
| Cyfradd ar gyfer gostwng ymrwymiadau'r cynllun | 6.9% | 6.9% |
| Nifer a ddisgwylir i gymeryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol | | 50% |

Mae maint cyfanswm yr asedau sy'n cael eu dal gan y Gronfa fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2008 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | % | % |
| Cyfranddaliadau | 75 | 73 |
| Bondiau | 14 | 14 |
| Eiddo | 9 | 8 |
| Arian | 2 | 5 |
| **Cyfanswm** | 100.0 | 100.0 |

<u>Hanes o'r profiad o enillion a cholledion</u>

Gall yr enillion neu golledion actiwaraidd a adnabyddir fel symudiadau yn y Reserf Pensiwn am 2008/09 gael eu dadansoddi i'r categoriau canlynol, a'u mesur fel canran o'r asedau neu'r diffygion fel ar 31 Mawrth 2009:

| | Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd | | | | | Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth | | | | | 31 Mawrth | | | | |
| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Gwahaniaeth | 3.3 | 13.6 | 0.1 | 0.2 | -34.7 | 3.5 | 14.5 | 0.1 | -17.6 | -38.2 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| rhwng yr enillion disgwyliedig ar yr asedau a'r gwir enillion | | | | | | | | | |
| Profiad enillion a cholledion ar yr ymrwymiadau | -0.5 | -0.1 | -0.1 | -12.1 | -0.2 | -1.4 | -1.8 | 0.6 | 0.7 | 0.4 |
| | | | | | | | | | |

**b) Cynllun Pensiwn Athrawon**

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon (APA). Mae'r cynllun yn rhoi buddion diffiniedig i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dal pensiynadwy aelodau.

Yn 2008/09 talodd y Cyngor £5.86m (£5.75m yn 2007/08) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 13.85% (13.66% yn 2007/08) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am daliadau pensiwn sy'n ymwneud a'r blynyddoedd ychwanegol y mae wedi ei ddyfarnu, ynghyd a'r cynnydd perthnasol. Yn 2008/09 roedd hyn yn £0.93m (£0.95m in 2007/08), ac yn cynrychioli 2.24% (2.25% in 2007/08) o dâl pensiynadwy athrawon.

Mae Safon Adrodd Ariannol 17 'Buddion Ymddeoliad' (FRS 17) wedi cael ei ddilyn yn y cyfrifon, gan gynnwys yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**NODYN 32 - GOFYN CYLLIDO CYFALAF**

Mae Cod Darbodus CIPFA, a ddefnyddiwyd yn gyntaf yn y flwyddyn ariannol 2004/05, yn ymofyn bod y Cyngor yn mabwysiadu Dangosyddion Darbodus sydd yn dangos bod rhaglen cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaladwy. Un o'r dangosyddion yma yw'r Gofyn Cyllido Cyfalaf. Mae'r dangosydd yma'n adlewyrchu'r angen sylfaenol i fenthyca ar gyfer pwrpas cyfalaf. Os nad yw gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n syth bydd yr gofyn cyllido cyfalaf net yn cynnyddu. Bydd hyn yn wir pe bydd benthyciad allanol yn digwydd neu ddim.

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 532,359 | Asedau Sefydlog | 538,777 |
| 2,253 | Buddsoddiadau Tymor Hir | 820 |
| (96,447) | Grantiau Llywodraeth Gohiriedig | (124,791) |
| (9,249) | Cronfa Ail-brisio | (3,601) |
| (270,066) | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (252,464) |
| (1,595) | Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol (perthnasol i Asedau Sefydlog) | (162) |
| 157,255 | **Gofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth** | 158,579 |

Mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn cael eu egluro fel a ganlyn:

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 154,792 | **Gofyn Cyllido Cyfalaf agoriadol** | 157,255 |
| 0 | Addasiad i'r ffigwr agoriadol | 3 |
| 38,463 | Buddsoddiadau Cyfalaf yn y flwyddyn | 53,784 |
| (1,280) | Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddwyd | (974) |
| (20,979) | Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (36,262) |
| (7,008) | Gwariant Cyfalaf yn erbyn Refeniw | (8,258) |
| (5,534) | Darpariaethau Refeniw (MRP) | (5,865) |
| | Symiau Gwirfoddol Ychwanegol a neilltuwyd : | |
| (1,046) | Derbyniadau Cyfalaf | (826) |
| (153) | Cyfraniadau Gwirfoddol | (278) |
| 157,255 | **Gofyn Cyllido Cyfalaf wrth gau** | 158,579 |

**NODYN 33 – SYMUDIAD MEWN RESERFAU**

| | Balans ar | Trosglwyddiad | Trosglwyddia | Balans ar |
|---|---|---|---|---|

| | Nodyn | 1 Ebrill 2008 | / Cyfraniad i Reserfau | d / Cyfraniad o Reserfau | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 34 | 270,066 | 1,800 | (19,402) | 252,464 |
| Cyfrif Addasiadau Offerynau Ariannol | 35 | (1,489) | 322 | 0 | (1,167) |
| Reserf Ail-Brisio | 37 | 9,249 | 0 | (5,648) | 3,601 |
| Reserf Offerynau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu | 36 | 1,361 | 0 | (1,303) | 58 |
| Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy | 38 | 4,600 | 3,640 | (1,952) | 6,288 |
| Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig | 39 | 92 | | (25) | 67 |
| Reserf Pensiynau | 31 | (74,382) | 0 | (57,504) | (131,886) |
| Cronfeydd wrth gefn Ysgolion | 40 | 3,721 | 730 | (741) | 3,710 |
| Reserfau a Glustnodwyd | 41 | 37,131 | 12,931 | (11,783) | 38,279 |
| **Balansau Refeniw** | | | | | |
| Cronfa'r Cyngor | | 10,574 | 0 | (1,341) | 9,233 |
| Cyfrif Refeniw Tai | | 1,645 | 287 | | 1,932 |
| **Cyfanswm** | | 262,568 | 19,710 | (99,699) | 182,579 |

## NODYN 34 – CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF

**SYMUDIADAU AR Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| **277,873** | **Balans ar 1 Ebrill** | **270,066** |
| | Trosglwyddiadau o Gronfa'r Gyngor | |
| (9,612) | - Diffyg Darpariaeth Lleiafswm Refeniw | (10,135) |
| (242) | - Addasiad Cymudiad | (36) |
| 7,008 | - Ariannu Asedau Sefydlog - Refeniw | 8,258 |
| 7,543 | - Grantiau Gohiriedig | 7,917 |
| 153 | - Cyfraniad Gwirfoddol | 278 |
| (6,527) | - Amhariad | (18,535) |
| (6,133) | - Gwariant Refeniw wedi'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (5,815) |
| 1,046 | Derbyniadau Cyfalaf a neilltiwyd | 826 |
| 1,280 | Defnydd Derbyniadau Cyfalaf i gyllido | 974 |
| 0 | Addasiad Dibrisiant | 198 |
| 0 | Addasiad Ail-brisio wrth werthu | 1,832 |
| (3) | **Lleihad** - Dyledwyr Tymor Hir | (2) |
| (3,075) | - Gwerthwyd | (3,362) |
| 755 | - Ychwanegwyd | 0 |
| **270,066** | **Balans ar 31 Mawrth** | **252,464** |

## NODYN 35 – CYFRIF ADDASIADAU OFFERYNAU ARIANNOL

**SYMUDIADAU AR Y CYFRIF ADDASIADU OFFERYNAU ARIANNOL**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| **(15)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(1,489)** |
| 34 | Dyledwyr | 14 |
| (1,508) | Premiwn / (Disgownt) ar ad-daliad dyled yn gynnar | 308 |
| **(1,489)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(1,167)** |

**NODYN 36 – RESERF OFFERYNAU ARIANNOL AR GAEL I'W GWERTHU**

| | SYMUDIADAU AR Y RESERF OFFERYNAU ARIANNOL AR GAEL I'W GWERTHU | |
|---|---|---|
| **2007/08** | | **2008/09** |
| **£'000** | | **£'000** |
| **1,594** | **Balans ar 1 Ebrill** | **1,361** |
| | **Symudiadau yn ystod y flwyddyn** | |
| (233) | Buddsoddiadau | (1,303) |
| **1,361** | **Balans ar 31 Mawrth 2009** | **58** |

**NODYN 37 – RESERF AIL BRISIO**

| SYMUDIADAU AR Y RESERF AIL BRISIO | Cronfa'r Cyngor £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2008** | 2,945 | 6,304 | 9,249 |
| Cynnydd/(Lleihad) yng Ngwerth Asedau | 697 | (6,147) | (5,450) |
| Addasiad Dibrisiant | (41) | (157) | (198) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | 3,601 | 0 | 3,601 |

**NODYN 38 – RESERF DERBYNIADAU CYFALAF DEFNYDDIADWY**

Dyma'r derbyniadau cyfalaf nas defnyddiwyd hyd yma i sicrhau gwariant cyfalaf ychwanegol ond sydd wedi eu hymrwymo'n rhannol. (Gweler hefyd Nodyn 5 yn y Datganiad o'r Polisïau Cyfrifo).

| DADANSODDIAD O DDERBYNIADAU CYFALAF DEFNYDDIADWY | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Gwasanaethau Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2008** | 638 | 3,962 | 4,600 |
| Derbyniadau yn 2008/09 | 1,247 | 2,393 | 3,640 |
| Cost Gweinyddol Hawl i Brynu | (48) | 0 | (48) |
| Neulltuwyd | (826) | 0 | (826) |
| Trosglwyddiad | | (104) | (104) |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod 2008/09 | (583) | (391) | (974) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | 428 | 5,860 | 6,288 |

**NODYN 39 - DERBYNIADAU CYFALAF GOHIRIEDIG**

Symiau sy'n deillio o werthiant Asedau ac a dderbynnir mewn rhan-daliadau dros gyfnod o amser yw Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig. Maent yn dod yn bennaf o werthiant tai Cyngor ar forgais, ac maent yn rhan o'r pennawd morgeisi dan y pennawd dyledwyr tymor hir.

**NODYN 40 - BALANSAU YSGOLION**

Cynrychiolir y swm yna yr elfen o falansau a rhyddhawyd o dan datganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:-

| **31 Mawrth 2008** | | **31 Mawrth 2009** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 3,896 | Balansau Ysgolion Unigol | 3,907 |
| (175) | Ysgolion sydd wedi gordynnu | (197) |
| 3,721 | | 3,710 |

**NODYN 41 - RESERFAU PENODOL**

Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

(i) Mae'r Reserf Adnewyddu yn cael ei ddefnyddio gan y Gwasanaethau Darparu, Hyfforddiant Gwynedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Argraffdy i adnewyddu cerbydau ac offer.

(ii) Mae'r Reserf Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau refeniw a ymrwymwyd eisoes ar gyfer Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

(iii) Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag Yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserf Yswiriant yn cynrychioli cronfeydd yswiriant Cyngor Sir Gwynedd (cyn 1996) a Chyngor Gwynedd.

(iv) Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i wasanaethau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

(v) Amcan 1 - Penderfynwyd creu cronfa yn ystod 1999/00 ar gyfer costau ychwanegol cyfalaf neu refeniw sydd yn debygol o ddod o'r anghenion datblygu cynlluniau ar gyfer Amcan 1.

(vi) Mae'r Reserf Datblygiadau ar gyfer prosiectau penodol a bennwyd eisioes gan y Cyngor fel Tai Fforddiadwy ac E-Lywodraeth, a'r Reserf Cyllido Strategol er mwyn darparu ystwythder cyllidebol ar gyfer y dyfodol.

(vii) Sefydlwyd y Gronfa Rhwydwaith i ariannu costau datblygu'r rhwydwaith gyfrifiadurol i ysgolion a sefydliadau eraill y Cyngor.

(viii) Cronfa Gwella'r Cyngor – swm a neilltuwyd i gefnogi cynlluniau a allai gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd, gwella perfformiad gwasanaethau, a chryfhau capasiti corfforaethol i gefnogi rheolaeth newid a gwelliant.

(ix) Cronfa Risgiau Penodol – swm a neilltuwyd i warchod y Cyngor rhag risgiau ariannol a chyllidol penodol yn y dyfodol.

(x) Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi rheolwyr.

(xi) Reserf y Ganolfan Gyswllt – symiau a roddwyd o'r neilltu ar gyfer datblygu y Ganolfan Gyswllt newydd.

(xii) Reserfau Gwasanaeth Ysgolion – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol perthnasol hefo gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', sefyllfa 'Ymddeol Cynnar a Diswyddo' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.

(xiii) Mae'r Reserfau Economi ac Adfywio, yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau arwahan.

(xiv) Dysgu Gydol Oes – cynnwys amrywiol falansau fel adnewyddu offer Canolfannau Hamdden a adnewyddu offer a chyfleusterau morwrol.

(xv) Mae'r Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynnwys yn bennaf symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhwng sefyllfaoedd anwastad – 'equalisation accounts' a gofynion tebygol contractau.

(xvi) Cronfa ar gyfer datblygiadau ac ymrwymiadau perthnasol i'r maes gwastraff yw'r Reserf Datblygiadau Gwastraff.

(xvii) Reserfau Ymgynghoriaeth – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd anwastad efo gweithiau amddiffyn yr arfordir ynghyd â gofynion cyflogaeth posib yn dilyn o newidiadau yn rhaglen waith y gwasanaeth ymgynghoriaeth.

(xviii) Reserfau Polisi a Pherfformiad Amgylchedd – perthnasol i ofynion arbennig yn ymwneud â Chynllun Datblygu Unedol, Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Werdd a Stiwardiaeth Amgylcheddol.

(xix) Reserfau Cynllunio a Thrafnidiaeth – yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahan.

(xx) Reserf Rheoli Cefnffyrdd – cynnwys swm a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb i newidiadau posibl hefo'r trefniadau cyflogaeth.

(xxi) Reserf Gwasanaethau Cymdeithasol – ar gyfer gofynnion y Panel Rhiant Corfforaethol.

(xxii) Reserfau Eraill Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd anwastad posib efo gofynion contractau.

(xxiii) Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau dibynnol eraill.

| | Balans ar | Trosglwyddiad | Trosglwyddiad | Trosglwyddiad | Balans ar |
|---|---|---|---|---|---|

| | 1 Ebrill 2008 | rhwng Cronfeydd | / Cyfraniad i Reserfau | / Cyfraniad o Reserfau | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Reserfau Adnewyddu | 2,811 | | 1,781 | (1,659) | 2,933 |
| Reserfau Cyfalaf | 8,018 | (65) | 693 | (285) | 8,361 |
| Reserfau Yswiriant | 3,928 | | 874 | (563) | 4,239 |
| Cronfa Gwasanaethau | 9,658 | 2,178 | 5,066 | (5,530) | 11,372 |
| Cronfa Amcan 1 | 545 | | | (218) | 327 |
| Reserf Datblygiadau | 419 | | 40 | (39) | 420 |
| Reserf Cyllido Strategol | 962 | 22 | 1,275 | (436) | 1,823 |
| Cronfa Rhwydwaith | 427 | | 32 | | 459 |
| Cronfa Gwella'r Cyngor | 848 | (47) | 34 | (492) | 343 |
| Cronfa Risgiau Penodol | 1,330 | (1,330) | | | 0 |
| Hyfforddiant Canolog | 1,182 | | 12 | (78) | 1,116 |
| Reserf Canolfan Gyswllt | 1,717 | | | (392) | 1,325 |
| Reserfau Gwasanaethau Ysgolion | 732 | 58 | 417 | (699) | 508 |
| Reserfau Economi ac Adfywio | 224 | | 84 | (102) | 206 |
| Reserfau Dysgu Gydol Oes | 160 | | 169 | (6) | 323 |
| Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,453 | | 286 | (68) | 1,671 |
| Reserf Datblygiadau Gwastraff | 0 | | 1,184 | (816) | 368 |
| Reserfau Ymgynghoriaeth | 372 | | 62 | | 434 |
| Reserfau Polisi a Pherfformiad (Amgylchedd) | 217 | | 398 | (3) | 612 |
| Reserfau Cynllunio a Thrafnidiaeth | 278 | | 9 | (58) | 229 |
| Reserf Rheoli Cefnffyrdd | 400 | | 200 | | 600 |
| Reserf Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 | | | (15) | 16 |
| Reserfau Eraill Gofal | 943 | (776) | 9 | (5) | 171 |
| Amrywiol Reserfau Eraill | 476 | (40) | 306 | (319) | 423 |
| **Cyfanswm** | 37,131 | 0 | 12,931 | (11,783) | 38,279 |

O'r symudiadau net ar Reserfau Yswiriant uchod mae £77,280 o'r cyfraniadau i'r reserfau a £57,377 o'r cyfraniadau o'r reserfau yn perthyn i'r Cyfrif Refeniw Tai.

## NODYN 42 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth yn y cyfrifon mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal. Mae swm y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol.

Mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth yn y cyfrifon mewn cydnabyddiaeth â chostau capio ag ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff. Mae'r gost terfynol am yr holl brosiect yn y broses o gael ei sefydlu.

Mae tenantiaid tai Cyngor Gwynedd wedi pleidleisio i drosglwyddo'r stoc tai i gyd i landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL). Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ar 1 Ebrill 2010. Tra bydd cyllideb y prosiect yn 'gost-niwtral', bydd ymhlygiadau ariannol yn deillio o allanoli'r stoc tai, gyda'r Cyngor yn colli manteision maint yn 'y canol', ac yn sefyll cost y diffyg hanesyddol yn y gronfa bensiwn parthed staff fydd yn trosglwyddo. Fel cydbwysedd, ar y llaw arall, bydd balansau'r cyfrif cyllid tai yn aros gyda'r Cyngor.

## NODYN 43 – DIDDORDEBAU MEWN CWMNÏAU

Mae gan y Cyngor ddiddordeb o 50% mewn dau gwmni ar y cyd gyda Cyngor Ynys Môn.

**Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf.**

Sefydlwyd Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yn 1994. Roedd y Cwmni yn gweithredu dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd a oedd ar les gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd elfen sylweddol o weithgareddau y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor i ddod â'r Cwmni i ben yn ystod 2007/08 a gwneud a gwaith yn fewnol. Troglwyddwyd yr asedau ac ymrwymiadau gweithredol a'r gweithwyr i'r Cyngor ym mis Ionawr 2008. Rhennir yr Asedau a'r ymrwymiadau eraill rhwng y ddau Gyngor pan mae'r Cwmni yn cael ei diddymu. Nid yw'r cyfrifon terfynol y Cwmni wedi cael eu cwblhau eto ond ail-briswyd y buddsoddiad ar y fantolen i adlewyrchu amcangyfrif o'i gwir werth pan bydd y rhaniad Asedau terfynnol yn digwydd. Derbyniwyd £1,183,580 fel rhan o'r setliad yn ystod 2008/09 a disgwylir taliad terfynnol yn ystod 2009/10 (Gweler nodyn 23 ar dudalen 40).

**Cwmni Cynnal Cyf.**

Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg lleol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Mae'r Cwmni yn gyfyngedig dan warant ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Dim ond tuag at hyrwyddo ei amcanion gellid defnyddio incwm y cwmni. Cynhwysir cyfanswm trafodaethau y cwmni gyda'r Cyngor yn Nodyn 10 i'r Datganiadau Ariannol Craidd. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf., Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

## NODYN 44 - YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 169 gymynroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion a chronfeydd cysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gyfadran Gofal. Cyfanswm y balans ar y cronfeydd hyn ar 31 Mawrth 2009 oedd £671,503. Buddsoddir hwy'n llawn er mwyn creu incwm.

Mae'r ddwy gronfa fwyaf yn dangos ar ddatganiadau ar wahân ar dudalennau 71 a 72.

## NODYN 45 – DATGELIAD NATUR A MAINT Y RISGIAU SYDD YN CODI O OFFERYNAU ARIANNOL

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

**Risg Credyd** - y posibilrwydd y byddai partïon eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fyddai gan y Cyngor arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymiadau i wneud taliadau.

**Risg Marchnad** - y posibilrwydd y byddai colled ariannol yn codi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Tanategir rheolaeth gyffredinol risgiau sylweddol sydd yn codi o Offerynnau Ariannol drwy'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi Flynyddol y Cyngor, sydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn unol â'r Cod Ymarfer rheoli Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a gyhoeddir gan CIPFA.

Mae'r ddogfen yn rhoi egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheolaeth risg yn gyffredinol a hefyd polisïau ysgrifenedig mewn meysydd penodol, fel risg cyfraddau llog, risg credyd a buddsoddiad o arian gweddilliol.

Mae'r Rheoliadau Ariannol yn berthnasol i holl drafodion a ymgymerir gan staff y Cyngor ac mae'r rheiny yn pennu dulliau gweithredu a rheolaeth er mwyn sicrhau fod unrhyw risgiau posib sydd yn wynebu'r Cyngor yn cael eu hisafu.

### Risg Credyd

Mae risg credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau eraill, ynghyd â datguddiadau credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar Y Fantolen).

Mewn cydymffurfiad gyda'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, ac yn gyson gyda'r strategaeth mewn blynyddoedd blaenorol, ni wnaed adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, yn dilyn credyd-raddiad annibynnol, wedi derbyn sgôr o leiaf A-. Yn ogystal, gosodwyd cyfyngiad credyd i bob gwrthbarti. Nid oedd unrhyw fuddsoddiad yn fwy na'r cyfyngiadau credyd a bennwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ac adneuodd yr awdurdod mewn cydymffurfiad gyda'i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys. Er hynny, roedd gan yr awdurdod adnau o £4m gyda Heritable Bank a gafodd ei roi mewn gweinyddiaeth ar 7 Hydref 2008. Mae'r adnau yma wedi cael ei brisio ar sail y wybodaeth ar gael fel y manylir yn Nodyn 23. Mae gweddill yr adneuon ar ddiwedd 2008/09 wedi cael eu had-dalu yn unol â'r dyddiadau adbryniant, heblaw am 4 sydd i'w ad-dalu ar ddyddiadau ar ôl mis Mehefin 2009. Ond un o'r rheiny sydd gyda gwrthbarti sydd heb ei gynnwys ar y rhestr gwrthbartion diwygiedig, £5m yw'r swm a 30 Gorffennaf 2009 yw'r dyddiad adbryniant. Nid yw'r awdurdod yn disgwyl unrhyw golledion oherwydd diffyg perfformiad unrhyw un o'r gwrthbartion heblaw Heritable Bank mewn perthynas â'r adneuon.

Roedd y Cyngor yn monitro cyfraddau credyd yn ddyddiol ac yn wedi cael rhybudd am unrhyw newidiadau gan ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys. Gweithredir yn briodol yn dilyn unrhyw newidiadau yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Penododd y Cyngor Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys newydd yn ystod 2008/09, a lleiheuwyd y rhestr gwrthbartion i'r 8 banc gyda mynediad i Gynllun Gwarant Credyd y Llywodraeth. Gosodwyd cyfyngiad credyd o £15m i bob un o'r banciau yma. Yn ogystal, ychwanegwyd y gallu i fuddsoddi mewn cronfeydd farchnad arian sydd efo sgôr yn cyfateb i 'AAA'. Mae'r cyfyngiadau yma yn y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys

ar gyfer 2009/10 hefyd. Cynhyrchir Adroddiad Blynyddol y Trysorlys er mwyn adrodd ar weithgareddau buddsoddi.
Mae'r Cyngor wedi gosod dulliau gweithredu ar gyfer symiau sydd yn ddyledus gan ei gwsmeriaid a gwneir darpariaethau perthnasol ar gyfer unrhyw ddyledion drwg dichonadwy. Adolygwyd y darpariaethau dyledion drwg yn sgil y sefyllfa ariannol gyfredol.

Mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hir gan gynnwys benthyciadau ceir i weithwyr a morgeisi i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir y benthyciadau ceir fel risg isel oherwydd y gallu i ddiddymu'r ad-daliadau o gyflogau'r gweithwyr, trefniadau trosglwyddo cytbwys gydag awdurdodau lleol eraill, yswiriant ar gyfer methdalwyr oherwydd marwolaeth mewn cyflogaeth a threfniadau adennill dyled arferol ar gyfer unrhyw weithwyr sydd yn gadael cyflogaeth llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn risg isel oherwydd bod y Cyngor yn dal pridiant cyntaf dros yr eiddo a forgeisiwyd.

Etifeddwyd nifer fach a gwerth bach o fenthyciadau tymor hir i gwmnïau a sefydliadau lleol gan y cyn-cynghorau ac mae'r rheiny gyda hanes ad-dalu da.

Oherwydd y sefyllfa ariannol gyfredol, mae'r Cyngor yn ystyried nifer o dddulliau o helpu busnesau ac unigolion lleol, gan gynnwys cefnogaeth ariannol potensial. Byddai hyn yn gallu effeithio'r risgiau credyd sydd yn wynebu'r Cyngor.

**Risg Hylifedd**

Mae'r risg hylifedd yn isel oherwydd bod gan y Cyngor fynediad i'r Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus (PWLB). Felly, does dim risg na fyddai'r Cyngor yn gallu codi arian er mwyn cwrdd â'i ymrwymiadau o dan offerynnau ariannol. Er hynny, mae risg byddai'r Cyngor angen adnewyddu cyfran sylweddol o'i benthyciadau ar amser cyfraddau llog anffafriol. Y strategaeth yw sicrhau bod dim mwy na 30% o'r benthyciadau yn ad-daladwy ymhen dwy flynedd ac i asesu'r cyfraddau marchnad a'r rhagolygon trwy'r amser er mwyn amnewid benthyciadau sydd yn aeddfedu neu ail-strwythuro benthyciadau presennol ar yr amser fwyaf buddiol. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheolaeth trysorlys allanol gydag arbenigedd yn y maes.

Mae pob credydwr masnachol a chredydwyr eraill yn daladwy ymhen llai na un flwyddyn.

**Risg Farchnad**

**Risg Cyfraddau Llog** - Mae'r Cyngor yn wynebu risg oherwydd symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith cymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai codiad mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog sydd yn cael ei dalu gan y Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - byddai gwerth teg yr ymrwymiadau benthyca yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Yn ystod 2008/09 bu gostyngiad mewn cyfraddau llog i lefel digynsail, a chafodd hyn effaith ar yr awdurdod o ran incwm llai o'i fuddsoddiadau.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau er mwyn rheoli risg cyfraddau llog. Polisi'r Cyngor yw benthyca ar gyfraddau sefydlog o'r PWLB er mwyn cael sicrwydd am y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chymorth ei ymgynghorwyr trysorlys, yn monitro'r cyfraddau llog cyffredinol a'r rhagolygon marchnad. Os byddai risg sylweddol o godiad siarp mewn cyfraddau tymor hir a byr, fe ailystyrir sefyllfa'r portffolio, ac mae'n debyg y cymerir cyllid cyfradd sefydlog tra bod cyfraddau llog yn parhau'n weddol rad. Os byddai risg sylweddol o gwymp siarp mewn cyfraddau hir a byr byddai'r benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac fe ymgymerir unrhyw aildrefnu priodol, o gyllid cyfradd sefydlog i gyllid tymor byr.

**Risg Prisiau** - Nid yw'r Cyngor fel arfer yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti, ond mae'n berchennog cyfranddaliadau mewn Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC). Ar hyn o bryd mae'r cwmni yn cael ei dirwyn i ben ac felly wedi cael ei ddynodi fel ased sydd ar gael i'w gwerthu a'i datgan ar werth teg ar Y Fantolen. Derbyniwyd setliad rhannol am werth teg y cyfranddaliadau yn ystod 2008/09 a disgwylir y balans yn 2009/10.

Roedd y Cyngor hefyd yn berchennog Debentur Cymdeithas y Cynghorau Dosbarth mewn perthynas ag eiddo sydd wedi cael ei ad-dalu yn ystod 2008/09.

**Risg Marchnad Cyfnewid Dramor** - Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw Asedau neu ymrwymiadau mewn arian tramor ac felly nid oes risg o golled oherwydd symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid dramor.

**NODYN 46 – DYDDIAD AWDURDODI RHYDDHAD DATGANIAD O'R CYFRIFON**

Awdurdodwyd rhyddhad Datganiad o'r Cyfrifon gan Dafydd L. Edwards, Pennaeth Cyllid, ar 16 Medi 2009.

## NODYN 47 - PERTHYNAS Â'R DATGANIAD O'R SYMUDIAD AR GRONFA'R CYNGOR (LLIF ARIAN)

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 2,533 | **(Gweddill) / Diffyg am y Flwyddyn ar y Cyfrif Incwm a Gwariant** | 17,453 |
| (4,863) | Swm ychwanegol net sy'n ofynnol drwy statud ac arferion priodol anstatudol i'w debydu / (credydu) i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn. | (16,101) |
| (2,330) | **(Cynnydd) / Lleihad yng Nghronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | 1,352 |
| (34) | Ychwanegir gweddill net y Cyfrif Refeniw Tai | (287) |
| (2,364) | | 1,065 |
| | **Eitemau heb fod yn golygu llif arian** | |
| | Ychwanegir /(Lleihau) - | |
| (32,332) | Cyfraniadau net i reserfau | 56,356 |
| (5,535) | Lleiafswm Darpariaeth Refeniw | (5,865) |
| 2,035 | Lleihad net yn y darpariaethau | 466 |
| 233 | Derbyn Asedau Sefydlog Cwmni Gwastraff | 0 |
| 1,489 | Addasiadau i Offerynnau Ariannol | (322) |
| 0 | Gweinyddu Hawl i Brynu o Dderbyniadau Cyfalaf | 48 |
| 30,270 | Ymrwymiad Pensiwn | (57,504) |
| (6,204) | | (5,756) |
| | **Eitemau ar sail cronni** | |
| 121 | Ychwanegir cynnydd/(lleihad) yn y stociau | 12 |
| 6,019 | Ychwanegir cynnydd/(lleihad) net yn dyledwyr refeniw | (941) |
| 0 | Ychwanegir cynnydd/(lleihad) yn dyledwyr ar gyfer llog derbyniadwy | (432) |
| (2) | Rhagdaliadau yn ymwneud a phremiwm ad-daliadau cynnar dyled | 0 |
| 91 | Disgownt gohiriedig ar ad-daliadau cynnar dyled | 0 |
| (299) | Llai (cynnydd)/lleihad net yn credydwyr refeniw | 7,894 |
| (274) | | 777 |
| | **Eitemau sydd yn ymddangos mewn lleoedd eraill ar y datganiad** | |
| (4,318) | Ychwanegir llog net a dalwyd | (4,169) |
| (7,161) | Costau cyllido cyfalaf o refeniw | (8,536) |
| (11,753) | **Cyfanswm** | (11,928) |

## NODYN 48 – GRANTIAU

**DADANSODDIAD O GRANTIAU A NODIR AR Y DATGANIAD LLIF ARIAN**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Grantiau Refeniw :-** | | |
| 2,211 | Grantiau Adnoddau | 1,494 | |
| 74 | Grantiau Prif Weithredwr | 82 | |
| 2,311 | Grantiau Corfforaethol | 165,210 | |
| 16,302 | Grantiau Amgylchedd | 21,084 | |
| 8,351 | Grantiau Gofal | 7,878 | |
| 1 | Grantiau Mandadol Addysg | 0 | |
| 1,020 | Grantiau GEST Addysg | 907 | |
| 14,630 | Grantiau Eraill Datblygu | 15,725 | |
| 28,764 | Grant Budd-dal Tai a'r Dreth Cyngor | 30,197 | |
| 130,471 | Grant Cynnal Refeniw | 131,857 | |
| 28,679 | Cyfran o'r Dreth DAnnomestig | 31,463 | 405,897 |
| 232,814 | | | |
| | **Grantiau Cyfalaf :-** | | |
| 18,060 | Grantiau'r Cynulliad | 34,901 | |
| 431 | Grantiau Awdurdod Datblygu Cymru | 604 | |
| 1,384 | Grantiau Cronfa Ddatblygu Rhanbarthau Ewrop | 409 | |
| 1,086 | Grantiau Eraill | 2,057 | |
| 20,961 | | | 37,971 |
| 253,775 | **Cyfanswm** | | 443,868 |

## NODYN 49 -SYMUDIADAU MEWN ARIAN A'I GYFFELYB

**CYNNYDD / (GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN A'I GYFFELYB – 2008/09**

| | Balans ar 1 Ebrill 2008 £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2009 £'000 | Symudiadau yn ystod y flwyddyn £'000 |
|---|---|---|---|
| Arian ordynnwyd | (14,229) | (25,428) | (11,199) |
| Arian mewn llaw | 73 | 9,771 | 9,698 |
| **Gostyngiad mewn arian a'i gyffelyb** | | | (1,501) |

# CYFRIF REFENIW TAI 2008/09

| 2007/08 £'000 | INCWM | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| (17,751) | Rhenti Tai | (18,438) |
| (414) | Rhenti Eraill | (395) |
| (140) | Taliadau am wasanaethau | (158) |
| (18,305) | **Cyfanswm Incwm** | (18,991) |
| | **GWARIANT** | |
| 5,955 | Cynnal a Chadw | 6,185 |
| 3,363 | Rheolaeth a Rhenti | 2,805 |
| 192 | Rhenti, trethi a thaliadau eraill | 200 |
| 127 | Darpariaeth dyledion drwg | 86 |
| 5,633 | Sybsidi Taladwy | 5,762 |
| 6,915 | Dibrisiant ar asedau sefydlog | 18,468 |
| (315) | Grantiau Gohiriedig | (418) |
| 21,870 | **Cyfanswm Gwariant** | 33,088 |
| **3,565** | **Gwariant net y gwasanaeth – Cyfrif incwm a gwariant** | **14,097** |
| 165 | Dyraniad y CRT o gostau Corfforaethol a Democratiaeth | 168 |
| **3,730** | **Gwariant net Gwasanaeth CRT** | **14,265** |
| 1,000 | Llog taladwy a thaliadau eraill | 923 |
| 159 | Premium a disgownt ar fenthyciadau | |
| (143) | Llog ar fuddsoddiadau | (178) |
| **4,746** | **Diffyg/ ( Gweddill ) am y flwyddyn** | **15,010** |

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD AR FALANSAU'R CYFRIF REFENIW TAI

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| **4,746** | **Diffyg am y flwyddyn ar Incwm a Gwariant** | **15,010** |
| | **Symiau a gynhwysir yn y cyfrif Incwm a Gwariant ond a eithrir, yn unol â statud, wrth gyfrifo'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | |
| (6,908) | Dibrisiant ac Amhariad Asedau Sefydlog | (18,461) |
| 315 | Amorteiddiad Grantiau Llywodraeth Gohiriedig | 418 |
| (7) | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf o drwy Statud | (7) |
| (152) | Costau Ariannol | 33 |
| (53) | Trosglwyddiad o Dderbyniadau Cyfalaf | (48) |
| (463) | Taliad Net am Fuddiannau Ymddeoliad yn unol â FRS17 | (338) |
| (7,268) | | (18,403) |
| | **Symiau a eithrir yn y cyfrif Incwm a Gwariant ond a gynhwysir, yn unol â statud, wrth gyfrifo'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | |
| 340 | Lleiafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Cyllido Cyfalaf | 313 |
| 1,600 | Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor | 2,203 |
| 529 | Cyfraniad y Cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn y Cyngor a Buddiannau Ymddeol sy'n daladwy'n uniongyrchol i bensiynwyr | 570 |
| 2,469 | | 3,086 |
| | **Trosglwyddiadau i/o Gronfa'r Cyngor y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu'r Symudiad ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | |
| 19 | Trosglwyddiad net i/o Reserfau a Glustnodwyd | 20 |
| 19 | | 20 |
| **(4,780)** | **Swm ychwanegol net sy'n ofynnol drwy statud ac arferion priodol anstatudol i'w debydu / (credydu) i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | **(15,297)** |
| **(34)** | **Cynnydd neu leihad ym malansau`r CRT** | **(287)** |
| (1,611) | Gwarged y CRT ddaethpwyd ymlaen | (1,645) |
| **(1,645)** | **Gwarged y CRT i gario ymlaen** | **(1,932)** |

# NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI

## NODYN 1 - STOC TAI

Roedd y Cyngor yn gyfrifol am reoli 6,382 o unedau anheddol erbyn diwedd 2008/09.
Rhennir y stoc fel a ganlyn:-

| 31Mawrth 2008 Nifer | STOC TAI'R CYNGOR | 31 Mawrth 2009 Nifer |
|---|---|---|
| 4,171 | Tai | 4,158 |
| 1,250 | Fflatiau | 1,248 |
| 794 | Byngalo | 794 |
| 115 | Unedau Gwarchod | 115 |
| 9 | Fflatiau uwchben siopau | 9 |
| 36 | Tai wedi`w prydlesu o'r sector preifat | 58 |
| 6,375 | **Cyfanswm** | 6,382 |

## NODYN 2 - RHENTI TAI

Mae'r ffigwr yma'n cynrychioli'r rhent sydd yn ddyledus am y flwyddyn, ar ôl tynnu ymaith ostyngiad am dai gwag a.y.b. Yn ystod y flwyddyn, fe gollwyd 2.58% o'r incwm posib oherwydd bod tai yn wag o'i gymharu gyda 1.85% yn 2007/08. Cyfartaledd y rhent wythnosol yn 2008/09 oedd £57.61 o'i gymharu gyda £54.22 yn 2007/08.

## NODYN 3 - RHENTI ERAILL

Mae'r ffigwr yma'n cynnwys rhenti siopau ar ystadau tai ynghyd â rhenti modurdai ar ôl tynnu gostyngiadau am fodurdai gwag.

## NODYN 4 - ÔL-DDYLEDION RHENT

Ar ddiwedd 2008/09, roedd 5.06% o incwm rent gros yn ôl-ddyledion, sef cyfanswm o £990,818. Mae hyn yn cymharu gyda £953,379 (5.13%) ar ddiwedd 2007/08. Yn ystod 2008/09, ysgrifennwyd i ffwrdd ôl-ddyledion o £57,893 ac fe wnaed cyfraniad o £86,040 tuag at y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.

## NODYN 5 – AMHARIAD AR FUDDSODDIAD

Mae gan y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) balansau arian sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc y Cyngor. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol ac mae'r Cyngor yn talu llog i'r CRT, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Cyfrif dros y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn fe fuddsoddodd y Cyngor £4m gyda Heritable Bank ond fe aeth y banc i weinyddiad ym mis Hydref 2008. Ad-dalwyd £47,265 o'r amhariad ar y buddsoddiad yma i'r CRT ac mae'n gynwysedig yn Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg. Ceir mwy o fanylion yn Nodyn 23 o'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd.

**NODYN 6 - CYFALAF**

Dangosir gwariant cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai yn y tabl isod:-

**GWARIANT CYFALAF**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 5,904 | Tai Cyngor | 6,594 |
| 0 | Eiddo Arall | 84 |
| 339 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | 226 |
| 180 | Is-adeiladwaith | 0 |
| 7 | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | 7 |
| 6,430 | **Cyfanswm** | 6,911 |

Ariannwyd fel a ganlyn :

**GWARIANT CYFALAF – DULL ARIANNU**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 4,100 | Lwfans Gwelliannau Mawr | 4,100 |
| 671 | Derbyniadau Cyfalaf | 582 |
| 1,600 | Cyfrif Refeniw Tai | 2,203 |
| 59 | Ffynonellau Eraill | 26 |
| 6,430 | **Cyfanswm** | 6,911 |

Cyfrifwyd am £1,199,007 o dderbyniadau cyfalaf yn deillio o werthiannau tir, tai ac eiddo arall, i'w gymharu â £1,596,709 yn 2007/08. Mae'r lleihad oherwydd gostyngiad yn gwerth a nifer o dai a werthwyd o dan y cynllun 'hawl i brynu'. Gweler manylion yn y tabl isod.

**DERBYNIADAU CYFALAF**

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 835 | **Ar 1 Ebrill** | 638 |
| | **Symudiadau yn ystod y flwyddyn** | |
| 1,596 | Derbyniwyd | 1,247 |
| (53) | Cost Weinyddol Hawl i Brynu | (48) |
| (1,046) | Neilltuwyd | (826) |
| (671) | Defnyddiwyd | (583) |
| 661 | **Ar 31 Mawrth** | 428 |

**NODYN 7 – DIBRISIANT**

Gwelir Dibrisiant ac Amhariad o £18.050m yn erbyn Cost Net y Gwasanaeth, a gyfrifwyd yn unol ag ymarfer da, fel a ganlyn:

| 2007/08 £'000 | DIBRISIANT AC AMHARIAD | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| | **DIBRISIANT** | |
| | **Asedau Gweithredol** | |
| 6,672 | Tai | 6,776 |
| 236 | Eraill | 313 |
| | **AMHARIAD** | |
| 0 | Tai | 11,372 |
| 7 | **Gwariant Refeniw weid'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud** | 7 |
| **6,915** | | **18,468** |
| (315) | **Grantiau Gohiriedig** | (418) |
| **6,600** | | **18,050** |

Yn unol â'r polisi cyfrifo'r Cyngor, ail-brisir tai Cyngor bob blwyddyn. Oherwydd y sefyllfa ariannol cyffredinol mae prisiau tai wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Yn sgil hyn mae cost amhariad o £11.372m ar dai Cyngor. Mae'r costau cyfalaf, gan gynnwys amhariad yn cael eu haddasu trwy'r Datganiad o Symudiadau ac felly nid yw'r gost yma yn effeithio balansau'r Cyfrif Refeniw Tai ar ddiwedd y flwyddyn.

**NODYN 8 – CYFRANIAD I / O RESERF PENSIWN**

Mae Cost Net y Gwasanaeth yn cynnwys pensiynau yn unol â chanllawiau FRS17 fel y manylir yn y tabl isod. Gweler nodyn 31 ar dudalennau 46 i 51 ar gyfer manylion llawn costau pensiwn FRS17.

| | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant Net ar Wasanaethau** | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol | (463) | (338) |
| Cost Gwasnaeth Gorffennol | 10 | 10 |
| **Cyfanswm i'w ariannu o'r Cyfrif** | | |
| Symudiad ar y Reserf Pensiwn | (66) | (232) |
| **Gwir gyfanswm pensiynau gafodd ei roi yn erbyn y Cyfrif yn ystod y flwyddyn** | | |
| Cyfraniadau Cyflogwr i'r Cynllun | (529) | (570) |

Cynhwysir cost llog pensiynau ac enillion a ddisgwylir ar asedau yng nghostau pensiwn yr awdurdod ond nid yw'r rhain yn rhannu yn rhwydd i'r Cyfrif Refeniw Tai.

**NODYN 9 – TROSGLWYDDO STOC TAI**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu y dylai holl dai Cyngor yng Nghymru gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) erbyn 2012. Nid oes digon o adnoddau gan y Cyngor i gyflawni'r WHQS. Mae tenantiaid tai Cyngor Gwynedd

wedi pleidleisio i drosglwyddo'r stoc tai i gyd i landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL), sydd wedi'i ffurfio at y pwrpas hwn. Rhagwelir y bydd y stoc tai yn cael ei drosglwyddo ar 1 Ebrill 2010.

# Y GRONFA DEGWM

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|
| 530.8 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | | 530.2 |
| | Newid yng ngwerth y buddsoddiadau ar y farchnad | | 0.4 |
| | **Ychwanegir** - Incwm yn ystod y flwyddyn :- | | |
| 29.8 | Llog ar fuddsoddiadau | 28.0 | |
| 1.8 | Elw ar fuddsoddiadau a werthwyd | 1.3 | |
| 0.6 | Rhenti a thaliadau blynyddol | 0.6 | |
| 32.2 | | | 29.9 |
| | **Llai** - Gwariant yn ystod y flwyddyn :- | | |
| (2.8) | Colled ar fuddsoddiadau a werthwyd | (8.5) | |
| (30.0) | Grantiau a chostau | (31.0) | (39.5) |
| 530.2 | **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth** | | 521.0 |
| | **A chynrychioli'r gan yr Asedau canlynol:-** | | |
| 26.1 | Tir ac Adeiladau | | 26.1 |
| 481.4 | Buddsoddiadau ar Gwerth y Farchnad | | 443.0 |
| 142.2 | Dyledwyr | | 226.9 |
| 564.3 | Arian mewn Llaw | | 501.8 |
| 1,214.0 | | | 1,197.8 |
| (657.2) | **Llai** - Elfen yn ddyledus i Gynghorau Môn a Chonwy | | (648.0) |
| 556.8 | | | 549.8 |
| (63.0) | **Llai** - Credydwyr | | (63.3) |
| 36.4 | **Ychwanegir** - Elfen yn ddyledus gan Gynghorau Môn a Chonwy | | 34.5 |
| 530.2 | **Cyfanswm** | | 521.0 |

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol - addysgol, cymdeithasol neu adloniadol, yn ôl ewyllys y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol. Gwneir yr archwiliad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw'r tystysgrif archwilio ar dudalennau 83 ac 84 yn cynrychioli adroddiad o dan ofynion y Ddeddf Elusennol 1993.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

| **2007/08 £'000** | | **2008/09 £'000** |
|---|---|---|
| 126.3 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 129.2 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddy | |
| 9.4 | Llog enillwyd gan yr asedau | 7.6 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (6.5) | Grantiau | (8.4) |
| 129.2 | **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth** | 128.4 |
| | **Asedau** | |
| 24.5 | Buddsoddiadau | 24.5 |
| 104.7 | Arian mewn Llaw | 103.9 |
| 129.2 | | 128.4 |

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

1. Sefydlwyd y gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.

2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2009 oedd £132,510 (£171,182 ar 31 Mawrth 2008).

3. Mae'r Gronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

# CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2008/09

| 2008 £'000 | Cyfrifon y Gronfa Bensiwn am y Flwyddyn sy'n Diweddu 31 Mawrth | 2009 £'000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau -** | |
| 11,943 | Gweithwyr - Staff | 13,223 |
| 32 | - Aelodau | 31 |
| 41,668 | Cyflogwyr - Staff | 44,154 |
| 106 | - Aelodau | 106 |
| 0 | - Lwmp Swm | 0 |
| 98 | - Ariannu Diffyg | 1,871 |
| 132 | - Ychwanegiad | 57 |
| 65 | Llog ar Gyfraniadau Gohiriedig | 70 |
| 4 | Llog ar Dalu Cyfraniadau'n Hwyr | 1 |
| 3,161 | Trosglwyddiadau o Gynlluniau Eraill | 2,559 |
| 235 | Prynu Gwasanaeth Ychwanegol a.y.y.b. | 258 |
| **57,444** | **Cyfanswm Cyfraniadau Dderbyniwyd** | **62,330** |
| | **Buddion Taladwy -** | |
| (22,492) | Pensiynau | (24,149) |
| (5,709) | Lwmp Swm | (6,572) |
| (0) | Grantiau Salwch | (0) |
| (564) | Budd-daliadau ar Farwolaeth | (1,051) |
| (15) | Ymadawiadau | (19) |
| (1) | Eraill | (0) |
| (1,602) | Trosglwyddiadau i Gynlluniau Eraill | (1,509) |
| (884) | Costau Gweinyddol (Nodyn 11) | (1,075) |
| **(31,267)** | **Cyfanswm Buddion Dalwyd** | **(34,375)** |
| **26,177** | **Ychwanegiadau Net o Ddelio gydag Aelodau** | **27,955** |

| 2008 £'000 | Enillion ar Fuddsoddiadau fel ar 31 Mawrth | 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 13,927 | Incwm Buddsoddi (Nodyn 9) | 6,841 |
| (56,005) | Newid yng Ngwerth Buddsoddiadau ar y Farchnad | (167,317) |
| (3,509) | Costau Rheoli Buddsoddiadau (Nodyn 12) | (2,232) |
| **(45,587)** | **Enillion Net ar Fuddsoddiadau** | **(162,708)** |

| 2008 £'000 | Gostyngiad Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn | 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 26,177 | Ychwanegiadau Net o Ddelio gydag Aelodau | 27,955 |
| (45,587) | Enillion Net ar Fuddsoddiadau | (162,708) |
| **(19,410)** | **Gostyngiad Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn** | **(134,753)** |

| 2008 £'000 | Asedau Net y Gronfa | 2009 £'000 |
|---|---|---|
| 812,155 | Ar 1af Ebrill | 792,745 |
| (19,410) | Gostyngiad Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn | (134,753) |
| **792,745** | **Fel ar 31 Mawrth** | **657,992** |

| 2008<br>£'000 | Datganiad o Asedau Net<br>fel ar 31 Mawrth | 2009<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| | **Buddsoddiadau yn ôl eu Gwerth ar y Farchnad (Nodyn 4)** | |
| | **Llog Sefydlog:** | |
| 26,760 | Sector Gyhoeddus y DU a Ddyfynnir | 10,677 |
| 37,315 | Arall y DU a Ddyfynnir | 50,375 |
| | **Mynegai Cysylltiol:** | |
| 39,568 | Mynegai Cysylltiol y DU | 32,439 |
| | **Cyfranddaliadau:** | |
| 86,942 | Y DU a Ddyfynnir | 8,967 |
| 436 | Y DU heb eu Dyfynnu | 0 |
| 113,749 | Tramor a Ddyfynnir | 84,211 |
| 481 | Tramor heb eu Dyfynnu | 1,088 |
| 25,688 | Ecwiti Preifat | 32,102 |
| | **Offerynnau Buddsoddi Cydgyfrannog:** | |
| 176,028 | Ymddiriedolaethau Uned y DU a Ddyfynnir | 170,505 |
| 3 | Mentrau'r DU | 2 |
| 102,064 | Ymddiriedolaethau Uned Tramor | 169,545 |
| 79,065 | Cronfeydd Rheoledig Tramor | 6,953 |
| 67,500 | Ymddiriedolaethau Uned Eiddo | 52,771 |
| | **Contractau Deilliad:** | |
| 0 | Ased Deilliad | 4,015 |
| 0 | Diffyg Deilliad | (4,168) |
| | **Arall:** | |
| 17,476 | Arian Parod a Buddsoddiadau Dros Dro | 33,517 |
| 16,524 | Dyledwyr – Gwerthiannau Buddsoddiadau yn Disgwyl Setliad | 519 |
| 6,466 | Dyledwyr Amrywiol (Nodyn 11) | 6,182 |
| (2,566) | Credydwyr – Pryniannau Buddsoddiadau yn Disgwyl Setliad | (869) |
| (754) | Credydwyr Amrywiol (Nodyn 12) | (839) |
| **792,745** | **Asedau Net ar 31 Mawrth** | **657,992** |

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol hyn yn cynnwys ymrwymiadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymiadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2007 a'r nesaf ar 31 Mawrth 2010) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymiadau'r dyfodol.

## NODIADAU I GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

**NODYN 1 - CYFFREDINOL**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gronfa statudol sydd yn darparu pensiynau ar gyfer y cyfranwyr. Mae aelodaeth o'r gronfa ar gael i holl weithwyr llywodraeth leol yn cynnwys staff mewn ysgolion a chorfforaethau addysg bellach yng Ngwynedd sydd ddim yn athrawon, yn ogystal â gweithwyr o gyrff a ganiatawyd. Mae'r cyrff cyflogi sy'n ymuno â'r cynllun naill ai'n "gyrff ar yr Atodlen", sef awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill a fo'n naturiol a'r hawl i ymuno, neu "gyrff a ganiateir" y caniatâ'r awdurdod gweinyddol iddynt ymuno, neu ddarparwyr allanol sy'n dewis ymuno â'r cynllun o dan gytundeb allanoli o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gwelliant a.y.b.) 1999. Rhestrir isod y "cyrff ar yr Atodlen" a'r "cyrff a ganiateir" sy'n cyfrannu i'r Gronfa:-

| **Cyrff ar yr Atodlen** | **Cyrff a Ganiateir** |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cydbwyllgor Claddu Caergybi |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | CAG Coleg Harlech |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin |
| Cyngor Tref Caernarfon | Cwmni Cynnal |
| Cyngor Tref Porthaethwy | Cwmni'r Fran Wen |
| Cyngor Dinas Bangor | Theatr Harlech |
| Cyngor Tref Llangefni | Theatr Gwynedd (tan mis Hydref 2008) |
| Cyngor Tref Biwmares | Gwasanaeth Gwirfoddol Conwy |
| Cyngor Tref Caergybi | Medrwn Môn |
| Cyngor Tref Llandudno | Mantell Gwynedd |
| Coleg Meirion Dwyfor | Canolfan Cynghori Ynys Môn |
| Coleg Menai | Menter Môn |
| Parc Cenedlaethol Eryri | Canolfan Cynghori Conwy |
| Coleg Llandrillo | CAIS |
| Ysgol Emrys ap Iwan | Eden Foods |
| Ysgol Uwchradd Eirias | Cartrefi Conwy |
| Ysgol Bryn Eilian | |
| Ysgol Pen y Bryn | |
| Cyngor Cymuned Tywyn | |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni | |
| Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel | |
| Cyngor Tref Abergele | |
| Cyngor Tref Bae Colwyn | |
| Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog | |

Mae gweithwyr yn cyfrannu canran sefydlog o'u cyflog a rhydd y cyflogwyr hefyd gyfraniad i gadw'r Gronfa yn ddiddyled. Pennir y swm hwn bob tair blynedd yn dilyn prisiad Actiwari o werth y Gronfa. (gweler Nodyn 3).

Rhaid buddsoddi unrhyw arian nad oes ei angen i wneud taliadau o'r Gronfa yn y tymor byr. Y nod wrth fuddsoddi'r arian yw cael yr elw mwyaf posibl i'r Gronfa, a thrwy hynny ostwng y cyfraniad sy'n ofynnol gan y cyflogwyr.

**NODYN 2 - POLISÏAU CYFRIFEG**

Paratowyd y cyfrifon i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 1998 (fel ei newidiwyd), ac i gydymffurfio â gofynion y Datganiad Ymarfer Argymelledig Rhif 1 Pwyllgor Safonau Cyfrifeg cyrff cyfrifeg Broffesiynol y Deyrnas Unedig. Maent yn dilyn argymhellion y Datganiad Ymarfer Argymelledig "Adroddiadau Cyllidol Cronfeydd Pensiwn" (fel a'i hadolygwyd ym Mai 2007). Mae'r canllawiau a adolygwyd yn newid y ffordd y mae asedau buddsoddi yn cael eu prisio i bris bid yn hytrach na phris canol y farchnad. Nid yw'r newid yng ngwerth 31 Mawrth 2008 yn cael ei ystyried yn faterol (£0.79m neu 0.1% o gyfanswm net asedau'r Gronfa), felly nid yw'r ffigyrau cymharol wedi cael eu hail ddatgan.

Dangosir yr holl Gyfraniadau, Incwm o Fuddsoddiadau a Budd-daliadau sy'n Daladwy ar sail croniant lle penderfynir y symiau ar adeg cau'r cyfrifon. Dangosir gwerthoedd trosglwyddo i mewn ac allan o gynlluniau eraill ar sail derbyniadau a thaliadau.

Mae gwerth stociau wedi cael eu prisio ar bris bid y farchnad ar gau 31 Mawrth 2009. Rhoddir gwerth ar Arian Tramor a Buddsoddiadau Tramor a ddalwyd ar 31 Mawrth 2009 yn ôl y gyfradd cyfnewid gyfredol ar amser cau busnes y diwrnod hwnnw. Mae gwerth yr Ymddiriedolaethau Uned â'r holl fuddsoddiadau eraill wedi cael eu cymryd ar bris bid y farchnad ar gau neu ar bris unigol diweddaraf y farchnad ar 31 Mawrth 2009. Mae deilliadau wedi eu prisio ar eu gwerth teg fel ar 31 Mawrth 2009. Wrth ddal deilliadau, nod y gronfa yw lleihau'r risg yn y portffolio. Mae'r contractau blaengyfnewid arian tramor sy'n cael eu dal gan y Gronfa yn cael eu defnyddio i warchod y Gronfa yn erbyn symudiadau mewn arian tramor.

**NODYN 3 - SEFYLLFA ACTIWARÏAID**

Ar Fawrth 31ain, 2007 y cafodd y Gronfa ei phrisio diwethaf (ar Fawrth 31ain, 2004 cyn hynny), ac mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymiadau.

Y dull actiwarïaid a ddefnyddiwyd yn y Prisiant oedd y "Dull Uned Amcanol" a'r rhagdybiaethau ariannol a fabwysiadwyd adeg prisio oedd:-

| | **% y flwyddyn** |
|---|---|
| Elw ar Fuddsoddiadau | |
| Cyfranddaliadau | 6.25% |
| Bondiau | 4.75% |
| 75% Cyfranddaliadau / 25% Bondiau | 5.9% |
| Codiadau Cyflog (heb gynnwys incrementau) | 4.7% |
| Chwyddiant / Codiadau Pensiwn | 3.2% |

Prif amcan cyllido'r Gronfa ydi gofalu bod asedau'r Gronfa yn ddigonol ar gyfer talu buddion aelodau fel y maent yn cronni. Pan fydd asedau'r Gronfa yn hafal i'w hymrwymiadau, yna dywedir bod lefel gyllido'r Gronfa yn 100%.

Mae prisiant Mawrth 31ain, 2007, yn dangos bod gostyngiad yn lefel hydaledd y Gronfa, fel a fu yng nghronfeydd pensiwn awdurdodau lleol eraill. Ar ddyddiad y Prisiant roedd gwerth asedau'r Gronfa ar y farchnad yn £814 miliwn tra bod gwerth eu hymrwymiadau yn £974 miliwn. Dengys y prisiant bod diffyg y gronfa yn uwch na'i asedau o £160 miliwn, a bod lefel gyllido'r Gronfa yn 84%.

**NODYN 4 – GWERTH MARCHNAD Y BUDDSODDIADAU**

Isod rhoddir gwerth marchnad yr asedau fel ar Fawrth 31ain, 2009:-

| | Cyfanswm £'000 | BGI % | UBS % | Capital % | Partners % | L&G % | Gwynedd % | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llog Sefydlog** | | | | | | | | |
| Sector Gyhoeddus y DU | 10,677 | 100.00 | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Arall y DU | 50,375 | 100.00 | - | - | - | - | - | 100.00 |
| **Mynegai Cysylltiol:** | | | | | | | | |
| Mynegai Cysylltiol y DU | 32,439 | 100.00 | - | - | - | - | - | 100.00 |
| **Cyfranddaliadau:** | | | | | | | | |
| Y DU a Ddyfynnir | 8,967 | - | - | 100.00 | - | - | - | 100.00 |
| Y DU heb eu Dyfynnu | - | - | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Tramor a Ddyfynnir | 84,211 | - | - | 100.00 | - | - | - | 100.00 |
| Tramor heb eu Dyfynnu | 1,088 | - | - | 100.00 | - | - | - | 100.00 |
| Ecwiti Preifat | 32,102 | - | - | - | 100.00 | - | - | 100.00 |
| **Offerynnau Buddsoddi Cydgyfrannog:** | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaethau Uned y DU a Ddyfynnir | 170,505 | 52.70 | - | - | - | 47.30 | - | 100.00 |
| Mentrau'r DU | 2 | - | 100.00 | - | - | - | - | 100.00 |
| Ymddiriedolaethau Uned Tramor | 169,545 | 23.91 | - | 6.97 | - | 69.12 | - | 100.00 |
| Cronfeydd Rheoliedig Tramor | 6,953 | - | 100.00 | - | - | - | - | 100.00 |
| **Ymddiriedolaethau Uned Eiddo** | 52,771 | - | 100.00 | - | - | - | - | 100.00 |
| **Derivative Contracts:** | | | | | | | | |
| Derivative Asset | 4,015 | - | 100.00 | - | - | - | - | 100.00 |
| Derivative Liability | (4,168) | - | 100.00 | - | - | - | - | 100.00 |
| **Arian Parod â Chyfalaf Gweithiol Net** | 38,510 | 0.00 | 8.08 | 16.72 | - | - | 75.20 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **657,992** | **34.02** | **9.53** | **17.10** | **4.88** | **30.07** | **4.40** | **100.00** |

**NODYN 5 – INCWM BUDDSODDI**

Rhoddir isod ddadansoddiad o Incwm Buddsoddi a amlinellir yn y Datganiad Asedau Net:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 8,046 | Cyfranddaliadau'r DU | 629 |
| 3,247 | Cyfranddaliadau Tramor | 3,085 |
| 122 | Ecwiti Preifat | 185 |
| 572 | Stoc Llywodraeth Prydain | 27 |
| 2,117 | Ymddiriedolaethau Uned Eiddo | 1,997 |
| 814 | Llog ar Falansau Arian Parod | 1,032 |
| (991) | Llai Treth ar Incwm | (114) |
| **13,927** | **Cyfanswm** | **6,841** |

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol,

mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn fe fuddsoddodd y Cyngor £4m gyda Heritable Bank ond fe aeth y banc i weinyddiad ym mis Hydref 2008. Ceir mwy o fanylion yn Nodyn 23 o'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd, ond mae'r amhariad ar y Gronfa Bensiwn yn £178,094. Mae'r amhariad yma wedi cael ei gynnwys yn y llog ar falansau arian parod uchod.

**NODYN 6 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY**

Isod rhoddir dadansoddiad o'r holl gyfraniadau derbyniadwy gan y gwahanol gyrff:-

| 2007/08 | | 2008/09 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 19,474 | Cyngor Gwynedd | 21,093 |
| 32,427 | Cyrff ar yr Atodlen | 34,008 |
| 2,313 | Cyrff a Ganiateir | 4,351 |
| 0 | Cronfa Gaeedig* | 248 |
| **54,214** | **Cyfanswm** | **59,700** |

*Cronfa Gaeedig - Mae'r rhain yn gyfraniadau a dderbyniwyd gan Gwmni Gwastraff Môn-Arfon a Theatr Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Roeddynt yn gyrff a ganiateir ond maent bellach yn gronfeydd caeedig.

**NODYN 7 – BUDDION TALADWY**

Isod rhoddir dadansoddiad o'r budd-daliadau taladwy i wahanol gyrff:-

| 2007/08 | | 2008/09 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 5,995 | Cyngor Gwynedd | 6,211 |
| 10,391 | Cyrff ar yr Atodlen | 12,764 |
| 498 | Cyrff a Ganiateir | 762 |
| 481 | Cyflogwyr heb Gyfranwyr | 514 |
| 11,400 | Cronfa Gaeedig | 11,522 |
| **28,765** | **Cyfanswm** | **31,773** |

**NODYN 8 – TRETH**

Yn dilyn Cyllideb 1997, nid yw'r Gronfa yn awr yn gallu adennill Blaen-Dreth Gorfforaethol, ond fe ellir adennill unrhyw dreth DU ar ddifidend a delir gan gwmnïau tramor. Felly mae'r incwm buddsoddi yn y cyfrifon yn cael eu dangos yn net o dreth DU.

Mae'r Gronfa wedi eu heithrio o dreth atal Unol Daliaethau America ar ddifidendau o fuddsoddiadau yn yr UDA ac yn adennill treth atal a dynnir yn rhai o wledydd Ewrop.

**NODYN 9 – COSTAU GWEINYDDOL**

Mae'r costau gweinyddol fel a ganlyn:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 788 | Gweinyddu a Phrosesu* | 1,011 |
| 81 | Ffioedd Actiwarïaid | 44 |
| 15 | Ffioedd Archwilio | 20 |
| **884** | **Cyfanswm** | **1,075** |

*Gwnaed dyraniad i'r Gronfa o gyflogau a threuliau eraill staff y Cyngor sy'n gweithio ar weinyddu'r cynllun pensiwn a buddsoddiadau pensiwn.

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig. Rhennir costau swyddfeydd yn ôl arwynebedd y lloriau.

Roedd y costau gweinyddol a dalwyd i Gyngor Gwynedd yn 2008/09 yn £951,737 (2007/08: £738,881).

**NODYN 10 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Mae costau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa fel â ganlyn:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 206 | Barclays Global Investors | 88 |
| 831 | UBS Global Asset Management | 412 |
| 882 | Capital International | 483 |
| 9 | Legal & General* | 238 |
| 1,433 | Partners Group | 881 |
| 80 | Cwmni'r Northern Trust | 51 |
| 10 | JPMorgan | 2 |
| 11 | Cwmni'r WM | 13 |
| 47 | Hymans Robertson | 64 |
| **3,509** | **Cyfanswm** | **2,232** |

*Cychwynnodd Legal & General ar eu gwaith ym mis Mawrth 2008.

## NODYN 11 – DYLEDWYR AMRYWIOL

Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon ar gyfer dyledwyr, fel a ganlyn:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 3,653 | Cyfraniadau i'w Derbyn | 4,396 |
| 264 | Dyledwyr Mewnol | 542 |
| 141 | Biliau Dyledwyr | 270 |
| 2,217 | Incwm Difidend Net yn Ddyledus | 535 |
| 138 | Treth y DU | 437 |
| 53 | TAW | 2 |
| **6,466** | **Cyfanswm** | **6,182** |

## NODYN 12 – CREDYDWYR AMRYWIOL

Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon ar gyfer credydwyr, fel a ganlyn:-

| 2007/08 £'000 | | 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| 86 | Credydwyr Mewnol | 276 |
| 412 | Ffioedd Buddsoddi | 214 |
| 0 | Ffioedd Archwilio | 20 |
| 159 | Treth y DU | 97 |
| 33 | Cyfraniadau Taladwy | 3 |
| 64 | Buddion Dyledus | 229 |
| **754** | **Cyfanswm** | **839** |

## NODYN 13 – GWERTHIANT A PHRYNIANT BUDDSODDIADAU

Mae cyfanswm o werthiant â phryniant buddsoddiadau yn cael eu hamlinellu isod:-

| | Gwerth Llyfr y Pryniant 2008/09 £'000 | Gwerthiant 2008/09 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfranddaliadau'r DU | 115,888 | 128,475 |
| Cyfranddaliadau Tramor | 242,607 | 191,841 |
| Ecwiti Preifat | 11,052 | 3,318 |
| Stoc Llywodraeth Prydain | 28,278 | 51,366 |
| Stociau Llog Sefydlog Eraill | 47,946 | 48,472 |
| Stociau Mynegai Cysylltiol | 986 | 7,043 |
| Ymddiriedolaethau Uned Eiddo | 8,000 | - |
| Derivatives | 4,015 | - |
| Arian a Buddsoddiadau Tymor Byr | 23,805 | 23,805 |
| **Cyfanswm** | **478,562** | **454,320** |

Mae costau trafodi yn cael eu cynnwys yng nghost prynu a derbyniadau gwerthu. Mae'r costau trafodi yn cynnwys costau sy'n cael eu codi yn uniongyrchol ar y gronfa megis ffioedd, comisiynau, treth stamp a ffioedd eraill. Roedd y costau trafodi a ddeilliodd yn ystod y flwyddyn yn £616,276 (2007/08: £635,489). Yn ychwanegol i'r costau trafodi a nodir uchod, mae costau anuniongyrchol yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng pris bid a phris cynnig buddsoddiadau sydd mewn cronfeydd cydgyfrannol. Nid yw'r gronfa yn cael manylion y costau anuniongyrchol yma ar wahân.

**NODYN 14 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (CGY)**

Mae yna 3 Cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Maent yn cael eu dal gan Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae asedau'r buddsoddiadau hyn yn cael eu dal ar wahân i'r brif Gronfa a nid ydynt yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn. Mae darparwyr CGY yn sicrhau buddion ychwanegol ar sail cynllun prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sydd yn dewis talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Mae aelodau sy'n cyfrannu yn y trefniannau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth sy'n cadarnhau'r cyfanswm sy'n cael ei ddal yn eu cyfrif ynghyd â'r symudiadau yn ystod y flwyddyn.

Dangosir gwerth y cronfeydd yma ar 31 Mawrth 2009 isod:

| | **Clerical Medical** | **Equitable Life** | **Standard Life** | **Cyfanswm CGY** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth y Gronfa ar 31Mawrth 2008 | 1,908 | 592 | 222 | 2,722 |
| Cyfraniadau A dderbyniwyd | 260 | 0 | 18 | 278 |
| Llog/Newid yng Ngwerth y Farchnad | (250) | 1 | (28) | (277) |
| Gwerth Trosglwyddo | 34 | 0 | 0 | 34 |
| Premiwm Yswiriant Bywyd | (1) | (0) | 0 | (1) |
| Budd-dal Ymddeol | (101) | (6) | 0 | (107) |
| Ymadawiadau | (72) | 0 | 0 | (72) |
| **Gwerth y Gronfa ar 31 Mawrth 2009** | **1,778** | **587** | **212** | **2,577** |

Nid yw'r symiau uchod yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â Rheoliad 5 (2)(c) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 1998 (S.I. 1998 Rhif 1831).

**NODYN 15 - PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Yn ystod y flwyddyn talodd Cronfa Bensiwn Gwynedd gostau gweinyddol o £951,737 i Gyngor Gwynedd (gweler Nodyn 9 Costau Gweinyddol).

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn. Yn 2008/09, derbyniodd y Gronfa log o £477,863 gan Gyngor Gwynedd.

Mae holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau wedi datgan diddordeb mewn cyrff sy'n ymdrin â'r Gronfa. Mae dau Brif Swyddog hefyd wedi datgan diddordeb mewn cyrff sy'n ymdrin â'r Gronfa.

**NODYN 16 – DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI**

Yn Nhachwedd 2004, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi diwygiedig fel a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mrs Marina Parry Owen ar 01286 679617.

**NODYN 17 – DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO**

Yn Chwefror 2008, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Ddatganiad o Strategaeth Cyllido, fel a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mrs Marina Parry Owen ar 01286 679617.

**NODYN 18 - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2008/09.**

Mae adroddiad manwl ychwanegol yn cael ei baratoi ynglyn â'r Gronfa Bensiwn. Gellir cael copi drwy gysylltu â Mrs Marina Parry Owen ar 01286 679617.

**NODYN 19 – DATGANIADAU LLYWODRAETHU**

Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu Datganiad Polisi Llywodraethu a'u Datganiad Cydymffurfiad â'r Drefn Lywodraethol, fel a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mrs Marina Parry Owen ar 01286 679617

**NODYN 20 – DATGANIAD POLISI CYFATHREBU**

Yn Mawrth 2006, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu Datganiad Polisi Cyfathrebu, fel a'I gymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Gellir cael copi ohono drwy gysylltu â Mr Gareth Jones ar 01286 679612.

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Gwynedd Gronfa Bensiwn.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Symud ar Falans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Arian Parod, Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai. Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Cyngor Gwynedd yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir ym mharagraff 46 o'r *Datganiad o gyfrifoldebau archwilwyr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'i arolygwyr, a'r cyrff a archwilir ac a arolygir ganddynt (2008) a* baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**
Nodir cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice* yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynaf adroddiad i chi ar fy marn o ran p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu, a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o'r canlynol, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice*:

- sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn; a
- trafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Adolygaf a yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r ''Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007. Nodaf os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodir gan CIPFA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad. Nid yw'n ofynnol i mi/ni ystyried, ac nid wyf wedi ystyried p'un a yw'r Datganiad Llywodraethu yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Ac nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ychwaith ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y corff llywodraeth leol na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rwyf yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddir gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ac yn ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol yn unig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol a'r gronfa bensiwn, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen yn fy marn i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2009 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice*.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Gronfa Bensiwn Gwynedd**

Yn fy marn **i** mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, heblaw am rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, yn unol â'r *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2008 – a Statement of Recommended Practice*.

**Casgliad ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau**

Cyflwynir fy nghasgliad ar drefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wna o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ar wahân yn Llythyr Archwilio cyhoeddedig y Rheolwr Cydberthynas.

**Tystysgrif cwblhau**

Ardystiad fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes modd cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol a rhoi tystysgrif archwilio hyd nes y bydd ymholiadau yn codi o fater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd, wedi'u cwblhau'n ffurfiol. Rwyf yn dawel fy meddwl na chaiff y swm sy'n destun yr ymholiadau effaith materol ar y gyfriflen.

**Archwilydd Penodedig:** Anthony Barrett

**Cyfeiriad:** Uned 4
Evolution
Pentre Busnes Lakeside
Parc Dewi Sant
Ewloe
CH5 3XP

**Arwyddwyd:** **Dyddiad:** 29 Medi 2009